Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru

‘Torri a Chysoni’ a Llywodraethiant Cymru

Contents

Crynodeb Gweithredol 3

Cyflwyniad: y bygythiad i Gynulliad Cymru 5

Pam allai Cymru fod â llai o ASau? 6

Goblygiadau i'r Cynulliad 6

A allai'r Cynulliad weithredu â llai o aelodau? 8

A oes modd osgoi deddfwriaeth San Steffan newydd? 8

Pa ddeddfwriaeth fyddai ei hangen? 10

Pa bosibiliadau sydd ar gael i system etholiadol Cynulliad Cymru? 11

Sut olwg fydd ar etholaethau newydd San Steffan? 11

System etholiadol y Cynulliad: y dewisiadau 16

1. Westminster template 16

1a) STV 2 aelod gan ddefnyddio etholaethau San Steffan sengl 16

1b) STV 4 aelod gan ddefnyddio parau o etholaethau San Steffan 19

1c Seddi San Steffan ag aelodau rhestr ranbarthol 21

1d) Seddi San Steffan â rhestr genedlaethol 23

2. Templed unigryw 24

2a) Templed unigryw gyda MMP 24

2b) Templed unigryw gyda STV 25

3. Templed llywodraeth leol 25

Asesiad 29

Argymhelliad 31

Atodiad 1: Cymru mewn tri deg etholaeth 32

Atodiad 2: Amcangyfrifon manylach ar gyfer 2003 46

Atodiad 3: Amcangyfrif o ganlyniadau'r etholiad gyffredinol yn 2010 yn y model o etholaethau newydd 48

Atodiad 4: Mapiau o'r etholaethau newydd arfaethedig 50

Lewis Baston ac Owain Llyr ap Gareth

Mai 2010

Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru
Llys y Deml
Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HA

Ffon: 029 2078 6522
cymru@newid-etholiadol.org.uk
www.newid-etholiadol.org.uk

Crynodeb Gweithredol

Mae’r papur hwn yn dadansoddi’r effaith y byddai bwriad y glymblaid Geidwadol-Democrat Rhyddfrydol i dorri nifer Aelodau Seneddol yn San Steffan yn ei gael yng Nghymru, ac yn benodol ar y Cynulliad Cenedlaethol.

Serch hynny, gyda’r posibilrwydd o ddatganoli pellach ynghyd a gor-gynrychiolaeth Cymru yn San Steffan, mi fydd hwn yn parhau i fod yn bwnc llosg yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf. Mae Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru o’r farn fod trafodaeth drylwyr o’r opsiynau posibl yn angenrheidiol i barhad democratiaeth Gymreig iach ar bob lefel o lywodraeth, boed hynny ar lefel San Steffan, datganoledig, neu ar lefel lleol.

Fel mae’r gyfraith yn sefyll ar y funud, fe fyddai toriad yn nifer yr etholaethau ac Aelodau Seneddol Cymreig yn San Steffan yn arwain at doriad yn nifer Aelodau’r Cynulliad ym Mae Caerdydd. Mae hyn yn fwyfwy gwir petai’n golygu hefyd cywiro gor-gynrychiolaeth Gymru yn San Steffan, a fyddai’n gostwng y nifer o etholaethau i 30. Byddai hynny’n golygu Cynulliad o 45 aelod.

- Byddai gostyngiad o’r fath yn beryg o effeithio ar allu’r Cynulliad i lywodraethu’n effeithiol.

Mae’r papur yn dadansoddi’r argyfwng posibl, gan gynnig opsiynau i ddelio gyda’r problemau hyn.

Byddai unrhyw newid mewn nifer etholaethau San Steffan yn golygu fod angen deddfwriaeth newydd er mwyn sicrhau sut y byddai’r Cynulliad yn cael ei ethol i’r dyfodol.

Byddai deddfwriaeth o’r fath yn golygu un ai:

- cysylltu etholaethau’r Cynulliad â San Steffan mewn ffordd wahanol (gan ddefnyddio system bleidleisio gwahanol i etholiadau’r Cynulliad);
- cysylltu etholaethau’r Cynulliad gydag etholaethau Awdurdodau Lleol
- datgysylltu’n llwyr etholaethau’r tri lefel o lywodraethiant.

Byddai torri nifer etholaethau San Steffan hefyd o reidrwydd yn golygu edrych eto ar system etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r papur yn edrych ar y newidiadau gwahanol sy’n bosibl, ac yn asesu eu cryfderau a’u gwendidau.

Mae opsiynau rhain yn cynnwys:

- newid y system Gyfrannol Aml-Aelod (a elwir hefyd yn System Aelod Ychwanegol) fel bod 50% o’r Cynulliad yn cael eu hethol drwy’r rhestr ranbarthol. Byddai hyn yn golygu 30 AC etholaethol gan ddefnyddio etholaeth San Steffan a 30 AC rhestr.
- newid y system bresennol fel yr uchod, ond gan ddefnyddio rhestr genedlaethol, i ethol yr ACau ychwanegol.
- 60 Aelod Cynulliad wedi’u hethol drwy etholaethau 2-aelod, gan ddefnyddio’r system Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV), a defnyddio etholaethau sengl San Steffan.
- 60 Aelod Cynulliad wedi’u hethol drwy etholaethau 4-aelod, yn defnyddio system STV, gan ddefnyddio parau o etholaethau San Steffan.
- 68 Aelod Cynulliad, wedi eu sylfaenu ar etholaethau Llywodraeth Leol, wedi’u hethol drwy etholaeth aml-aelod amrwyiol, gan ddefnyddio’r system STV.

Mae’r Gymdeithas Newid Etholiadol yn argymell mabwysiadu’r model STV wedi’i seilio ar etholaethau Llywodraeth Leol fel y dull gorau o sicrhau’r angen am gyfranoldeb a chynrychioliad ehangach ac y ddull gorau i hybu llywodraeth sefydlog a chlymbleidio effeithiol.

Rydym yn gobeithio y bydd y papur hwn yn gyfraniad i drafodaeth drylwyr o’r materion yma.

Cyflwyniad: y bygythiad i Gynulliad Cymru

Ar yr olwg gyntaf, mae’n ymddangos efallai nad oes a wnelo nifer ASau Cymru yn San Steffan lawer â’r system etholiadol a ddefnyddir i ethol Aelodau Cynulliad i gynrychioli pobl Cymru ym Mae Caerdydd. Ond, mewn gwirionedd, mae cyswllt anorfod rhwng y materion.

Er nad yw wedi cael llawer o sylw hyd yn hyn mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru (a llai o sylw byth ar lefel y Deyrnas Unedig lle mae’n ymddangos nad yw’r goblygiadau wedi’u hystyried yn drwyadl) mae’n eithaf posibl y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru’n gostwng yn sylweddol. Oni bai bod deddfwriaeth sylfaenol newydd sy’n sefydlu sut mae’r Cynulliad am gael ei ethol yn y dyfodol, mae hyfywdra’r Cynulliad dan fygythiad.

Mae’r ffaith bod angen i ddeddfwriaeth sylfaenol newydd gael ei derbyn drwy San Steffan yn gyfle i ail-archwilio egwyddorion a phwrpas y system etholiadol i Gymru. Dylai hyn gael ei sbarduno gan y blaenoriaethau sy’n codi o lawr gwlad yng Nghymru, yn hytrach na’i orfodi oddi uchod gan San Steffan.

Er fod y papur hwn yn ymateb i bolisiau sydd wedi cael eu cynnig gan y Blaid Geidwadol ac i’w cael eu gweithredu gan y glymblaid Geidwadol-Democratiaid Rhyddfrydol, mae hefyd yn bwysig i bwysleisio ei berthnasedd ehangach mewn gwleidyddiaeth Cymreig cyfoes.

Pe buasai’r Cynulliad Cenedlaethol yn ennill fwy o bwerau, mae’r cynsail a osodwyd yn yr Alban yn 1999 (heb gyfrif y ffaith fod Senedd yr Alban gyda fwy o bwerau na’r rhai sy’n cael eu cynnig yng Nghymru) yn cryfhau’r achos dros gyfyngu nifer yr Aelodau Seneddol Cymreig. Mi fuasai hyn yn codi’r un cwestiynau a godir yn y papur hwn.

Mae galwadau wedi bod am ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Pe bai unryw ad-drefnu, mae’r Gymdeithas Newid Etholiadol yn argymell y dylid cadw mewn golwg cysylltu etholaethau Llywodraeth Leol a rhai’r Cynulliad fel modd o alluogi gwneud y cyswllt rhwng y ddau lefel o lywodraethiant yn fwy effeithiol, effeithlon a thryloyw i etholwyr, a hefyd yn adlewyrchu’r cyswllt systemig sydd rhwng y gwahanol lefelau o lywodraeth.

Bwriad y papur hwn yw cyfrannu at drafodaeth ddeallus am y materion hyn yng Nghymru ac yn Llundain.

Pam allai Cymru fod â llai o ASau?

1. Cwtogi ar nifer etholaethau'r DU

Polisi Plaid Geidwadol y DU yw lleihau nifer yr ASau yn San Steffan o'r 650 o etholaethau sy'n bodoli o etholiad cyffredinol 2010 i 585, sef 10 y cant yn llai.

Mae'r blaid hefyd yn cynnig newid y rheolau ar gyfer llunio ffiniau etholaethau. Ar hyn o bryd, mae seddi ar gyfer pob un o bedair cenedl gydrannol y DU yn cael eu cyfrifo ar wahân, ac er bod gan y Comisiynau Ffiniau ganllaw o ganiatáu amrywiad o 10 y cant ym mhob pen ar faint sedd ddelfrydol a pheidio â thorri ffiniau sir, gellir llacio'r rhifau ymhellach os oes amgylchiadau daearyddol arbennig (fel y mae yng Ngwynedd). Cynnig y Ceidwadwyr yw y bydd yr un 'cwota' (maint delfrydol etholaeth) ledled y DU, rheol gaeth o 3.5 y cant o amrywiad mwyaf, a dim lwfans i ddaearyddiaeth.

Gan fod etholaethau Cymru'n llai na'r cyffredin, byddai'r rhan 'gyfartalu' o'r polisi'n gwneud yr effaith yn arbennig o ddifrifol. Byddai nifer etholaethau Cymru'n syrthio o 40 i 30 (efallai mor isel â 29, gan ddibynnu ar dalgrynnu).

2. Sefyllfa Holyrood

Os trosglwyddir pwerau deddfwriaeth sylfaenol i Gynulliad Cymru, mae'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban wedi gosod cynsail i leihau cynrychiolaeth Cymru yn San Steffan i gyfateb i hyn. Cywirwyd gorgynrychiolaeth yr Alban yn 2005 pan leihawyd nifer yr ASau yr oedd yn eu hanfon i San Steffan o 72 i 59. Y dull a ddefnyddiwyd oedd defnyddio cwota Lloegr i osod maint dymunol etholaethau'r Alban.

Pe byddai hyn yn cael ei gymhwyso i Gymru, a phe byddai Tŷ'r Cyffredin yn y DU yn cynnwys rhyw 640 o seddi, byddai'n lleihau nifer etholaethau San Steffan yng Nghymru i ryw 33 yn ôl pob tebyg, neu 34 gan ganiatáu ar gyfer daearyddiaeth gogledd-orllewin Cymru.

3. Sefyllfa Stormont

Un o'r dewisiadau a drafodwyd ar lefel y DU, ond nad yw'n bolisi gan unrhyw blaid ar hyn o bryd, yw lleihau nifer ASau San Steffan o ardaloedd â datganoli deddfwriaethol llawn i nifer islaw cyfartaledd Lloegr. Mae hyn trwy gydweddiad â'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon pan oedd yn rhan ddatganoledig o'r DU rhwng 1922 a 1972 (cynyddwyd nifer ei seddi yn ailddosbarthiad 1976-83 i adlewyrchu'r newid i reol uniongyrchol). Pe byddai'r polisi 'lleihau a chyfartalu' yn cael ei gyflwyno yn y DU, a bod gan Gymru ddatganoliad deddfwriaethol, gellid gostwng nifer etholaethau Cymru i gyn lleied ag 20 mewn egwyddor.

Goblygiadau i'r Cynulliad

> 41. Assembly constituencies have the same boundaries as the parliamentary constituencies for which Members of the UK Parliament are returned. Therefore, at the passing of this Act, there are 40 Assembly constituencies. If the parliamentary constituencies change (by Her Majesty making an Order in Council under the Parliamentary Constituencies Act 1986, following a report of the Electoral Commission), the Assembly constituencies will also change accordingly.
>
> *Nodiadau esboniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 2006 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/en/06en32-a.htm*

Mae'n amlwg, o dan ddeddfwriaeth bresennol, y byddai gostwng nifer etholaethau San Steffan yng Nghymru yn arwain yn uniongyrchol at ostwng nifer etholaethau Cynulliad Cymru.

Mae nifer yr aelodau rhanbarthol yn y Cynulliad ynghlwm wrth nifer yr aelodau etholaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – dyfynnir

isod yr Atodlen berthnasol i'r Ddeddf. Mae Rheol 3 yn sefydlu perthynas sefydlog rhwng nifer etholaethau'r Cynulliad (h.y. o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, etholaethau San Steffan) a nifer y seddi rhanbarthol. Mae'n rhaid i nifer y seddi rhanbarthol fod hanner nifer y seddi etholaeth, wedi'u talgrynnu os oes angen.

Felly, byddai lleihau nifer ASau Cymru i 34 yn arwain yn awtomatig at leihau maint y Cynulliad i **51 o aelodau** o'r 60 cyfredol. Byddai gostyngiad i 30 o ASau Cymru yn arwain at ostwng maint y Cynulliad i **45 o aelodau**.

9 (1) The rules are –

1 Each Assembly constituency must be wholly included in one Assembly electoral region.

2 The regional electorate for an Assembly electoral region must be as near the regional electorate for each other Assembly electoral region as is reasonably practicable, having regard (where appropriate) to special geographical considerations.

3 The total number of seats for the Assembly electoral regions must be –

(a) one half of the total number of the Assembly constituencies, or

(b) (if that total number is not exactly divisible by two) one half of the number produced by adding one to that total number.

4 The number of seats for an Assembly electoral region must be –

(a) one fifth of the total number of seats for the Assembly electoral regions, or

(b) (if that total number is not exactly divisible by five) either one fifth of the highest number which is less than that total number and exactly divisible by five, or the number produced by adding one to one fifth of that highest number, as provided by sub-paragraphs (2) to (6).

(2) If the total number of seats for the Assembly electoral regions is not exactly divisible by five, there is to be calculated the difference between –

(a) the total number of seats for the Assembly electoral regions, and

(b) the highest number which is less than that total number and exactly divisible by five.

(3) That difference is the number of residual seats.

(4) No more than one residual seat may be allocated to an Assembly electoral region.

(5) The regional electorate for each Assembly electoral region is to be divided by the aggregate of –

(a) the number of Assembly constituencies in the Assembly electoral region, and

(b) one fifth of the highest number which is less than the total number of seats for the Assembly electoral regions and exactly divisible by five.

(6) In allocating the residual seat or seats to an Assembly electoral region or regions, regard must be had to the desirability of allocating the residual seat or seats to the Assembly electoral region or regions for which the calculation in sub-paragraph (5) produces the highest number or numbers.

Atodlen 1, Deddf Llywodraeth Cymru 2006

A allai'r Cynulliad weithredu â llai o aelodau?

Heb ddiwygio deddfwriaeth, byddai Cynulliad Cymru'n llawer llai o faint – ac roedd adroddiad Comisiwn Richard yn 2004 yn argymell y dylai gynyddu yn hytrach na lleihau pe byddai pwerau'n cael eu trosglwyddo. Pe bai refferendwm yn arwain at drosglwyddo pwerau pellach ai pheidio, yn ôl pob tebyg byddai'n amhosibl rhedeg y system bresennol â Chynulliad o 44 aelod.

Byddai'n eironig ac yn wrthnysig pe byddai datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad yn arwain at ostwng nifer y bobl a fyddai'n gyfrifol am ddefnyddio a chraffu ar bwerau a arferir yng Nghymru – ni waeth ai 51 neu 45 aelod fyddai hynny. Fel y nododd Comisiwn Richard yn 2004, nid cyfrifoldeb ysgafn mo craffu deddfwriaethol llawn. Gyda 10-14 o aelodau llywodraeth, byddai'r dasg o graffu ar amrywiaeth llywodraethu a deddfwriaeth ddomestig Cymru yn mynd i 31-41 o ACau gwrthblaid a meinciau ôl.

> 38. Os bydd pwerau'r Cynulliad yn cael eu cynyddu, bydd rhaid rhoi llawer mwy o flaenoriaeth i graffu yng ngwaith y Cynulliad, yn enwedig pwyllgorau. Byddai hyn yn gyfrifoldeb beichus gan na fyddai unrhyw siambr adolygu nac unrhyw gyfeirio'n ôl at San Steffan…
>
> 41. Golyga hyn y byddai pwerau sylfaenol yn galw am gynnydd ym maint y Cynulliad etholedig. Dylai hyn gael ei gadw i'r lleiafswm sydd ei angen yn sgil y gwaith ychwanegol. Credwn y byddai'r gwaith craffu ychwanegol yn ei gwneud yn hi'n angenrheidiol i gael cynnydd o un rhan o dair, o 60 i 80, ynghyd â mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau gweithio.
>
> *Argymhellion Adroddiad Comisiwn Richard 2004, t258-259 http://www.richardcommission.gov.uk/content/finalreport/report-e.pdf*

Byddai Cynulliad â 45 sedd yn golygu y gallai fod cyn lleied â 23 sedd gan Lywodraeth Cynulliad fwyafrif, ac y gallai fod cyn lleied ag 20 efallai gan lywodraeth leiafrif. Mae gan y llywodraeth gyfredol 10 aelod Cabinet a 4 Dirprwy Weinidog, a hyd yn oed pe byddai hyn yn cael ei leihau (posibilrwydd annhebygol os oes pwerau pellach), ni fyddai'n iach cael cyn lleied o feincwyr ôl llywodraeth, gan y byddai hyn yn ei gwneud yn anodd cymryd lle gweinidogion yng nghanol tymor ac yn ei gwneud yn anodd i'r blaid neu'r pleidiau llywodraeth gyfranogi'n llawn yng ngwaith pwyllgor y Cynulliad.

Er bod argymhelliad Richard o Gynulliad ag 80 sedd wedi'i ystyried yn ofalus, mewn adeg o ddirwasgiad efallai na fydd llawer o awydd gan y cyhoedd gynyddu maint y Cynulliad o un rhan o dair, ac mae achos felly o blaid ei gadw yn 60 neu ei gynyddu i raddau llai. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried syniad Cynulliad sy'n llai o gwbl na 60, yn arbennig os yw am arfer pwerau craffu deddfwriaethol yn ogystal â'i swyddogaethau craffu ar lywodraeth.

A oes modd osgoi deddfwriaeth San Steffan newydd?

Nac oes, yn ôl pob tebyg. Mae'n debyg bod angen deddfwriaeth sylfaenol newydd yn San Steffan os yw rhywun am gadw unrhyw beth tebyg i'r trefniadau cynrychiadol cyfredol i'r Cynulliad yn y tymor hir.

Mae ateb tymor byr a allai weithio am un tymor Cynulliad (yn wir, rhwng 2007 a 2010 roedd ffiniau'r Cynulliad a San Steffan yn wahanol), ond nid yw'n gynaliadwy.

Mae deddfwriaeth gyfredol (a ddyfynnir isod) yn caniatáu'r Gorchmynion Cychwyn ar gyfer gosod etholaethau Cynulliad Cymru a San Steffan ar wahanol adegau, a oedd yn caniatáu'r sefyllfa gyfredol lle mae gwahaniaethau rhwng y ffiniau. Ond dim ond dros dro y gall hyn fod. Mewn egwyddor, byddai'n bosibl cadw'r ffiniau'n wahanol pe byddai llywodraeth y DU yn y dyfodol yn gosod

y Gorchymyn ar gyfer etholiad San Steffan ond yn gohirio ffiniau'r Cynulliad am gyfnod amhenodol.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 1

Orders in Council giving effect to Commission reports

10 (1) An Order in Council under the 1986 [Parliamentary Constituencies] Act for giving effect to the recommendations contained in a report of the Commission may specify different dates for its coming into force –

(a) for the purposes of elections to the House of Commons, and

(b) for the purposes of the return of Assembly members.

(2) The coming into force of an Order in Council under the 1986 Act does not affect the operation of section 10 or 11, or the constitution of the Assembly, at any time before the next general election.

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060032_en_13

Gallai hyn weithio ar gyfer un etholiad, ond ni sefydlwyd dull o gwbl yng nghyfraith y DU i newid ffiniau'r Cynulliad eu hunain. Nid oes gan unrhyw gorff y cyfrifoldeb cyfreithiol am lunio ffiniau etholaethau Cynulliad Cymru – mae'r rhain yn codi'n awtomatig o ffiniau San Steffan. Yn anffodus, tydi Deddf Etholaethau Seneddol 1986 a'r Gorchmynion a wneir oddi tani, ond yn berthnasol i etholaethau San Steffan, ac ni ellir eu gwneud i nodi gwahanol drefniadau i sefydliad nad oedd yn bodoli ym 1986.

Mae amrywio dyddiadau Gorchmynion Cychwyn fel y cyfryw'n gallu arwain at un o ddau beth:

1 Gadael ffiniau Cynulliad ôl-2007 wedi'u rhewi'n barhaol yn eu lle (sy'n hurt); neu

2 Ar ryw adeg yn y dyfodol byddai'n rhaid gwneud Gorchymyn a fyddai'n lleihau nifer etholaethau'r Cynulliad i nifer etholaethau San Steffan, a dim ond wedi'i gohirio mae'r broblem.

Roedd yr un problemau'n berthnasol i'r Alban, a lleihaodd ei chynrychiolaeth yn San Steffan pan gafodd ei Senedd bwerau deddfu sylfaenol. Yn achos yr Alban, roedd angen diwygio deddfwriaeth i ddatgysylltu ffiniau Holyrood a San Steffan, sef Deddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004, gan fod Deddf yr Alban 1998 yn cysylltu'r etholaethau ar gyfer y ddau gorff a, heb newid deddfwriaeth, buasai nifer etholaethau Holyrood wedi lleihau hefyd (i 60, o ystyried yr iaith arbennig o amgylch Orkney a Shetland), gan effeithio naill ai ar faint cyffredinol y corff neu'r cydbwysedd rhwng Aelodau etholaethol a rhanbarthol o Senedd yr Alban.[1]

1 Er bod y geiriad yn Neddf yr Alban 1998 yn ymddangos yn llawer mwy eglur, a'i fod yn wahanol, mewn gwirionedd mae deddfwriaeth Cymru'n creu'r un math o broblem os newidir nifer seddi San Steffan.

Pa ddeddfwriaeth fyddai ei hangen?

Byddai nifer o lwybrau deddfu amgen yn San Steffan i ddatrys y broblem i'r Cynulliad a disodli'r rhannau o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n nodi'r system etholiadol.

1 **Deddf Cynulliad Cymru (Etholaethau).** Pan leihawyd nifer etholaethau San Steffan yn yr Alban, derbyniwyd darn annibynnol o ddeddfwriaeth, sef Deddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004. Roedd hwn yn datgysylltu etholaethau Holyrood a San Steffan. Roedd yn rhoi'r pwerau i'r Comisiwn Ffiniau i'r Alban[2] ac yn gosod rheolau ar gyfer llunio etholaethau Senedd yr Alban. Gellid defnyddio'r un ymagwedd yn hawdd i ddatgysylltu etholaethau'r Cynulliad a San Steffan er mwyn parhau ffurfwedd gyfredol 40 o ACau etholaethol ac 20 o ACau rhanbarthol (neu yn wir i roi unrhyw ddewis arall ar waith).

2 Yn hytrach na mesur annibynnol, gellid cyflwyno'r newid fel cymal mewn **Deddf Comisiynau Ffiniau** newydd i'r DU (neu deitl arall) sy'n ymdrin â'r rheolau ar gyfer dosbarthu etholaethau seneddol; neu

3 Gellid gwneud darpariaethau etholiadol ar gyfer Cynulliad model newydd yn rhan o **Ddeddf Llywodraeth Cymru** newydd sy'n nodi pwerau strwythur llywodraeth mwy datganoledig. Fodd bynnag, pe byddai'r llwybr hwn yn cael ei ddewis, byddai angen cael darpariaethau wrth gefn i newid y gyfraith etholiadol pe byddai'r pecyn cyfan yn cael ei drechu mewn refferendwm.

4 **Diwygio Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.** Byddai'r weithdrefn hon yn cadw'r cyswllt rhwng etholaethau'r Cynulliad a San Steffan ond yn ailysgrifennu'r ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â nifer yr ACau rhanbarthol a etholir i'r Cynulliad. Byddai'n gymharol syml nodi maint Cynulliad (60 er enghraifft) a mynnu mai nifer yr ACau rhanbarthol ddylai fod y gwahaniaeth rhwng nifer etholaethau'r Cynulliad/San Steffan (sy'n parhau'n union yr un fath â'i gilydd) a maint y Cynulliad. Byddai lleihau i 34 o ASau yn arwain at Gynulliad Cymru o 34 o ACau etholaeth a 26 o ACau rhanbarthol; byddai lleihau i 30 yn cynhyrchu Cynulliad sydd wedi'i gydbwyso 30/30 rhwng aelodau rhanbarthol ac etholaeth.

Pa bynnag lwybr a ddewisir, bydd yn rhaid i Senedd y DU ystyried y trefniadau cyfreithiol ar gyfer ethol Cynulliad Cymru rywbryd yn y dyfodol agos.

Mae deddfwriaeth sylfaenol yn golygu bod ailasesu sail sylfaenol y system yn bosibl – o leiaf, maint y Cynulliad, y rhanbarthau etholiadol a'u ffiniau a'r cydbwysedd rhwng ASau rhanbarthol ac etholaeth. Nid oes rheswm o gwbl pam na ddylid ystyried newidiadau mwy radical, yn arbennig y rheini a amlinellir gan Gomisiwn Richard.

2 Roedd Deddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagweld y Comisiynau Ffiniau'n dod o dan nawdd y Comisiwn Etholiadol, ond ni fydd hyn yn digwydd bellach.

Pa bosibiliadau sydd ar gael i system etholiadol Cynulliad Cymru?

Mae'r dadansoddiad canlynol yn edrych ar nifer o wahanol ffyrdd o weithredu system etholiadol Cynulliad Cymru pe byddai nifer etholaethau San Steffan yng Nghymru'n gostwng.

Mae tair sail fras i fap etholaethau'r Cynulliad:

1 Cadw etholaethau San Steffan fel yr uned sylfaenol

2 Dyfeisio (fel yn yr Alban) set unigryw o ffiniau ar gyfer etholiadau Cynulliad

3 Defnyddio ffiniau llywodraeth leol yn sail i etholiadau Cynulliad.

Yn fras, mae dwy system etholiadol sy'n werth eu hystyried i'r Cynulliad – y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) a pharhad o'r system gyfredol, Aelodau Cymysg Cyfrannol (MMP, a elwir hefyd yn AMS).

Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y ddau ddewis, sut y byddent yn gweithio a'u goblygiadau gwleidyddol. Cyn mynd ymhellach, byddai'n fanteisiol ystyried sut olwg fyddai ar fap etholaethau San Steffan yng Nghymru pe byddai nifer y seddi'n lleihau i 30 a'u maint yn cael ei reoleiddio'n gaeth, fel yn y cynnig Ceidwadol.

Sut olwg fydd ar etholaethau newydd San Steffan?

Mae'r dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar set enghreifftiol o ffiniau ar gyfer Cymru â 30 etholaeth. Mae'n tybio mai'r cwota etholiadol (maint sedd safonol) yw 77,000. Pan gafodd ei lunio ym mis Tachwedd 2009, nid oedd cynnig y Ceidwadwyr yn caniatáu mwy na 5 y cant o amrywiad i bob pen o'r cwota, ond yn eu cynnig ym mis Chwefror 2010 i ddiwygio'r Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol roedd yr amrywiad a ganiateir wedi gostwng i 3.5 y cant. Byddai'r terfyn tynnach yn golygu bod mwy o ranbarthau etholiadol lleol yn cael eu rhannu, bod mwy o ffiniau awdurdod lleol yn cael eu croesi, a bod diwygiadau amlach.

Gyda ffin o 5 y cant, byddai'r amrywiad a ganiateir ym maint etholaethau'r DU rhwng 73,150 ac 80,850 o etholwyr. Mae hyn yn cyd-fynd â 29 neu 30 o seddi San Steffan yng Nghymru – dewiswyd 30 yma er mwyn gwneud y rhifyddeg yn daclusach, ond nid yw'r darlun cyffredinol yn rhy wahanol pe byddai'n mynd i 29. Rhoir manylion pellach y dull a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau enghreifftiol yn Atodiad 1. Er byddai canlyniad astudiaeth Comisiwn Ffiniau ac unrhyw ymchwiliad cyhoeddus dilynol yn debygol o fod yn wahanol, cynigir y canlynol fel cynllun sy'n cydymffurfio â'r gofynion, ac nid yw daearyddiaeth Cymru yn caniatáu ond nifer cyfyngedig o amnewidiadau sy'n cyd-fynd â'r rheolau.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r etholaethau enghreifftiol newydd, wedi'u trefnu yn ôl rhanbarth etholiadol. Byddai angen addasu ffiniau'r rhanbarthau, fel yr oeddent yn 2007, i adlewyrchu'r etholaethau newydd.

Sedd newydd	Prif ragflaenydd	Prif ardaloedd eraill y sedd newydd
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU		
Aberhonddu a Threfaldwyn	Aberhonddu a Sir Faesyfed	Sir Drefaldwyn (prif ran)
Caerfyrddin	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	Hanner Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Ceredigion a Rhaeadr	Ceredigion	Gorllewin Powys, gogledd Sir Benfro
Gwynedd a Machynlleth	Dwyfor Meirionnydd	Arfon (ardal Caernarfon), Sir Drefaldwyn (ardal Machynlleth)
Llanelli	Llanelli	Gwŷr (ardal Pontarddulais) Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr (ardal Rhydaman)
Penfro	Preseli Penfro	Hanner Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
GOGLEDD CYMRU		
Conwy ac Abergele	Gorllewin Clwyd	Aberconwy (ardal Conwy)
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	De Clwyd	Gorllewin Clwyd (ardal Rhuthun) Dyffryn Clwyd (ardal Dinbych)
Y Fflint a'r Rhyl	Dyffryn Clwyd	Delyn (ardal y Fflint)
Yr Wyddgrug a Shotton	Alun a Glannau Dyfrdwy	Delyn (ardal yr Wyddgrug)
Wrecsam	Wrecsam	De Clwyd (ardal Brychdyn)
Ynys Môn a Bangor	Ynys Môn	Arfon (ardal Bangor)
CANOL DE CYMRU		
Y Barri a Phenarth	Bro Morgannwg	De Caerdydd a Phenarth (Penarth)
Canol Caerdydd	Canol Caerdydd	De Caerdydd a Phenarth (Butetown a'r Sblot) Gogledd Caerdydd (ardal Gabalfa)
Gogledd Ddwyrain Caerdydd	Gogledd Caerdydd	De Caerdydd a Phenarth (ardal Llanrhymni) Canol Caerdydd (ardal Cyncoed)
Gorllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Gogledd Caerdydd (ardal yr Eglwys Newydd) Canol Caerdydd (Grangetown)
Pontypridd ac Aberdâr	Cwm Cynon	Pontypridd (ardal tref Pontypridd)
Dyffryn Trelái	Pontypridd	Gorllewin Caerdydd (ardal Trelái) Bro Morgannwg (ardal y Bont-faen)
DWYRAIN DE CYMRU		
Blaenau Gwent a Thredegar	Blaenau Gwent	Islwyn (ardal Tredegar) Merthyr Tudful a Rhymni (ardal Rhymni)
Caerffili	Caerffili	Islwyn (ardal Rhisga)
Casnewydd	Gorllewin Casnewydd	Dwyrain Casnewydd (craidd trefol)
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Merthyr Tudful a Rhymni	Caerffili (ardal Ystrad Mynach)
Trefynwy	Trefynwy	Dwyrain Casnewydd (Llanwern a Chil-y-coed)
Torfaen	Torfaen	Gorllewin Casnewydd (Caerllion a Malpas)
GORLLEWIN DE CYMRU		
Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr	Ogwr (Abercynffig a'r gogledd)
Rhondda ac Ogwr	Rhondda	Ogwr (ardal Cwm Ogwr) Pontypridd (Tonyrefail)
Castell-nedd ac Aberafan	Aberafan	Castell-nedd (tref Castell-nedd) Ogwr (Maesteg)
Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Castell-nedd	Dwyrain Abertawe (ardal St Thomas) Aberhonddu a Sir Faesyfed (ardal Ystradgynlais)
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Dwyrain Abertawe	Gwŷr (ardal Casllwchwr) Gorllewin Abertawe (Y Cocyd)
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Gorllewin Abertawe	Gwŷr (penrhyn Gwŷr)

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r berthynas rhwng y 40 etholaeth bresennol a'r etholaethau yn y model 30 sedd.

Sedd gyfredol	Olynydd	
Aberafan	Castell-nedd ac Aberafan	
Aberconwy	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i Gonwy ac Abergele
Alun a Glannau Dyfrdwy	Yr Wyddgrug a Shotton	
Arfon	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i Wynedd a Machynlleth
Blaenau Gwent	Blaenau Gwent a Thredegar	
Aberhonddu a Sir Faesyfed	Aberhonddu a Threfaldwyn	Newidiadau radical
Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr	
Caerffili	Caerffili	
Canol Caerdydd	Canol Caerdydd	
Gogledd Caerdydd	Dwyrain Gogledd Caerdydd	
De Caerdydd a Phenarth	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i Ddwyrain Gogledd Caerdydd
Gorllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	Caerfyrddin	
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	DIDDYMWYD	Rhannwyd yn gyfartal rhwng Caerfyrddin a Phenfro
Ceredigion	Ceredigion a Rhaeadr	
De Clwyd	Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	Newidiadau radical
Gorllewin Clwyd	Conwy ac Abergele	Newidiadau radical
Cwm Cynon	Pontypridd ac Aberdâr	
Delyn	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i'r Fflint a'r Rhyl
Dwyfor Meirionnydd	Gwynedd a Machynlleth	
Gwŷr	DIDDYMWYD	Rhannwyd yn gyfartal rhwng Gogledd Abertawe a Chasllwchwr a Gorllewin Abertawe a Gwŷr
Islwyn	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i Gaerffili
Llanelli	Llanelli	
Merthyr Tudful a Rhymni	Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	
Trefynwy	Trefynwy	
Sir Drefaldwyn	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i Aberhonddu a Threfaldwyn
Castell-nedd	Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Newidiadau radical
Dwyrain Casnewydd	DIDDYMWYD	Yr adran fwyaf i Gasnewydd
Gorllewin Casnewydd	Casnewydd	
Ogwr	DIDDYMWYD	Gwasgarwyd ymhlith Rhondda ac Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd ac Aberafan
Preseli Sir Benfro	Penfro	
Pontypridd	Dyffryn Telái	Newidiadau radical
Rhondda	Rhondda ac Ogwr	
Dwyrain Abertawe	Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Newidiadau radical
Gorllewin Abertawe	Gorllewin Abertawe a Gwŷr	
Torfaen	Torfaen	
Dyffryn Clwyd	Y Fflint a'r Rhyl	
Bro Morgannwg	Y Barri a Phenarth	
Wrecsam	Wrecsam	
Ynys Môn	Ynys Môn a Bangor	

Mae'r tabl canlynol yn amcangyfrif gwedd bleidiol y seddi newydd ym mhleidlais etholaeth etholiadau Cynulliad 2007.

Sedd newydd	'Enillydd' 2007	
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU		
Aberhonddu a Threfaldwyn	Democrat Rhyddfrydol	
Caerfyrddin	Plaid Cymru	
Ceredigion a Rhaeadr	Plaid Cymru	Dem. Rhydd. yn 2010
Gwynedd a Machynlleth	Plaid Cymru	
Llanelli	Plaid Cymru	Llafur yn 2010
Penfro	Ceidwadol	
CANOL DE CYMRU		
Y Barri a Phenarth	Llafur	Ceidwadwyr yn ail agos
Canol Gaerdydd	Democrat Rhyddfrydol	
Dyffryn Trelái	Llafur	
Gogledd Dwyrain Gaerdydd	Ceidwadwr	
Gorllewin Gaerdydd	Llafur	
Pontypridd ac Aberdâr	Llafur	
DWYRAIN DE CYMRU		
Blaenau Gwent a Thredegar	Annibynnol	
Caerffili	Llafur	
Casnewydd	Llafur	
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Llafur	
Torfaen	Llafur	
Trefynwy	Ceidwadol	
GORLLEWIN DE CYMRU		
Castell-nedd ac Aberafan	Llafur	
Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Llafur	
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llafur	
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Llafur	
Pen-y-bont ar Ogwr	Llafur	Mwy diogel ar ôl newidiadau
Rhondda ac Ogwr	Llafur	
GOGLEDD CYMRU		
Conwy ac Abergele	Plaid Cymru	Sedd agos deirffordd gyda'r Ceidwadwyr a Llafur; Ceidwadol yn 2010
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	Plaid Cymru	
Y Fflint a'r Rhyl	Ceidwadwr	
Wrecsam	Llafur	
Yr Wyddgrug a Shotton	Llafur	
Ynys Môn a Bangor	Plaid Cymru	Llafur yn 2010

Yn y tabl canlynol, rhoir effaith gyffredinol y newidiadau fel y'u modelwyd ar y pleidiau.

	San Steffan 2005		Etholaethau Cynulliad 2007	
	Gwirioneddol	Enghreifftiol	Gwirioneddol	Enghreifftiol
Ceidwadol	3	3	5	4
Llafur	29 (30)*	20	24	16
Dem. Rhydd.	4	3	3	2
Plaid Cymru	3 (2)*	3	7	7
Annibynnol	1	1	1	1

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau'n nodi canlyniad enghreifftiol yn seiliedig ar ffiniau Cynulliad 2007/ San Steffan 2010.

System etholiadol y Cynulliad: y dewisiadau

1. Templed San Steffan

Byddai un grŵp o ddewisiadau ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol i Gynulliad Cymru yn cynnal cyswllt ag etholaethau San Steffan ar ôl i adolygiad o ffiniau yn y dyfodol gwtogi ar y niferoedd. Ar gyfer y cyfrifiadau canlynol, rydym yn tybio y bydd nifer etholaethau Cymru'n cael eu lleihau i 30 ar ryw adeg – byddai'r trefniadau manwl yn wahanol pe byddai'r gostyngiad yn llai neu'n llai eithafol.

Yn fyr, dyma'r dewisiadau yn y grŵp hwn.

a) STV 2 aelod gan ddefnyddio etholaethau San Steffan sengl.

b) STV 4 aelod gan ddefnyddio parau o etholaethau San Steffan (gan amrywio yn ôl yr angen i wneud i'r rhifau a/neu'r ddaearyddiaeth weithio).

c) MMP gan ddefnyddio etholaethau San Steffan sengl ar gyfer y seddi etholaeth ac ychwanegu seddi cyfrannol rhanbarthol i gael Cynulliad o 60. Nid oes angen i'r rhanbarthau fod yr un fath â'r rheini a ddefnyddiwyd yn 2007.

d) MMP gan ddefnyddio etholaethau San Steffan sengl ar gyfer y seddi etholaeth ac ychwanegu seddi cyfrannol cenedlaethol yn amodol ar drothwy, ar gyfer Cynulliad o 60.

1a) STV 2 aelod gan ddefnyddio etholaethau San Steffan sengl

Dyma ddewis a oedd yn cael ei ystyried weithiau yng nghyfnodau cynnar datganoli fel llwybr i Gynulliad ag 80 o aelodau. I ryw raddau, dyma'r posibilrwydd symlaf. Pe byddai nifer etholaethau San Steffan yn gostwng i 30, mae'n trosi'n hawdd i gynnal corff â 60 o aelodau. Os nad yw'n gostwng cymaint, mae'n ffordd naturiol o wneud lle i rywfaint o dwf yn y Cynulliad, i 70 o aelodau efallai, i adlewyrchu pwerau mwy.

Byddai pleidleiswyr yn pleidleisio drwy osod ymgeiswyr yn nhrefn eu dewis.

Byddai'r system etholiadol hon yn eithaf tebyg i'r un gyfredol o ran canlyniad cyffredinol, er byddai ganddi rai gwahanol nodweddion.

Gan amlaf, byddai plaid yn cyflwyno un ymgeisydd, er gallai fod yn werth anelu am y ddwy sedd mewn ychydig bach o etholaethau lle mae plaid yn cael ei chefnogi'n gryf (Plaid Cymru yng Ngwynedd a Machynlleth, Caerfyrddin; y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghanol Caerdydd; Llafur yn seddi Pontypridd ac Aberdâr, Castell-nedd ac Aberafan, Rhondda ac Ogwr a Chymoedd Gwent os nad oes unrhyw ymgeiswyr Annibynnol cryf).

Ym mwyafrif helaeth y seddi yng Nghymru, mae Llafur yn bresenoldeb gweddol gryf, sy'n gallu bod yn gymwys am sedd o dan STV 2 aelod. Y cwota am sedd yw 33.3 y cant. Llwyddodd Llafur i wneud hyn mewn 21 sedd allan o 40 yn 2007, a 29 allan o 40 yn 2003. Gallai Llafur ddisgwyl clirio'r trothwy hwn hyd yn oed o dan dybiaethau pesimistaidd am drosglwyddiadau mewn llawer mwy o seddi na hyn. Yn etholiad 2007 dim ond pedair etholaeth y gellid eu disgrifio fel rhai heb obaith o ethol ymgeisydd Llafur o dan STV 2 aelod (Aberhonddu a Sir Faesyfed, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd a Sir Drefaldwyn).

Mae'r model 30 sedd yn angenrheidiol llai union, ond prin yw'r seddi lle nad oes gobaith gan y blaid Lafur – i bob pwrpas, y tair sedd sy'n etifeddu'r ardaloedd presennol lle ond oes ganddynt obaith (Aberhonddu a Threfaldwyn, Ceredigion a Rhaeadr, Gwynedd a Machynlleth). Pe byddai Llafur yn perfformio y gorau y gallai, gan gyrraedd yr holl dargedau hyn yn ogystal â'r pum achos lle mae Llafur yn cael y ddwy sedd mewn ardaloedd cryf, byddai'n cael mwyafrif main o 31 sedd allan o 60. Dim ond pe byddai cefnogaeth gref i'r blaid Lafur ledled Cymru y byddai hyn yn bosibl, a phe na fyddai dim yn mynd o'i le mewn gwleidyddiaeth leol yn unrhyw un o seddi'r cymoedd – sy'n gais go anodd. Mae'r rhagamcaniad o ganlyniadau 2003 o dan STV 2 aelod yn rhoi Llafur yn 30 allan o 60, fel y digwyddodd mewn gwirionedd yn etholiad 2003.

Fodd bynnag, ni fyddai Llafur yn debygol o gael ei leihau islaw 20 o dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed â gostyngiad sylweddol ym mhleidleisiau Llafur ers lefelau 2007.

Byddai'r diffiniad o seddi ymylol yn newid o dan y system hon. Byddai seddi a fyddai'n seddi ymylol caled o dan reolau'r cyntaf i'r felin (FPTP) San Steffan (fel y Barri a Phenarth, neu Aberhonddu a Threfaldwyn) i bob pwrpas yn cael sedd ddiogel ar gyfer y ddwy brif blaid yn lleol (sef Llafur a Cheidwadwyr a Dem. Rhydd. a Cheidwadwyr yn y drefn honno). Seddi ymylol teirffordd fyddai'r seddi allweddol, fel y byddai seddi lle gallai plaid anelu at ennill y ddwy sedd.

Mae systemau etholiadol dau aelod yn weddol anarferol, a'r brif enghraifft yw Chile.

Mae'r ffaith na fyddai pob plaid, yn y rhan fwyaf o etholaethau, ond yn cyflwyno ymgeisydd sengl, yn cyfyngu tipyn ar fanteision dewis a chystadleuaeth a ddaw yn sgil STV fel arfer. Byddai hefyd yn ei gwneud yn anodd i bleidiau gymryd camau i ddiogelu hanes cadarnhaol Cymru o lwyddo i gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau gan nad yw systemau (fel FPTP San Steffan) sy'n golygu dewis ymgeiswyr sengl yn unig yn hyrwyddo amrywiaeth heb fesurau arbennig anodd fel gefeillio neu restri byr menywod yn unig. Byddai seddi STV mwy yn galluogi'r rhan fwyaf o bleidiau i gyflwyno mwy nag un ymgeisydd.

	Amcangyfrif 2007 sedd 1	Amcangyfrif 2007 sedd 2
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU		
Aberhonddu a Threfaldwyn	DRh	Ceid
Caerfyrddin	PC	Llaf
Ceredigion a Rhaeadr	PC	DRh
Gwynedd a Machynlleth	PC	PC
Llanelli	PC	Llaf
Penfro	Ceid	Llaf
CANOL DE CYMRU		
Y Barri a Phenarth	Llaf	Ceid
Canol Gaerdydd	DRh	Llaf
Dyffryn Trelái	Llaf	Ceid
Gogledd Dwyrain Gaerdydd	Ceid	Llaf
Gorllewin Gaerdydd	Llaf	Ceid
Pontypridd ac Aberdâr	Llaf	PC
DWYRAIN DE CYMRU		
Blaenau Gwent a Thredegar	Ann	Llaf
Caerffili	Llaf	PC
Casnewydd	Llaf	DRh
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Llaf	Ann
Torfaen	Llaf	Ceid
Trefynwy	Ceid	Llaf
GORLLEWIN DE CYMRU		
Castell-nedd ac Aberafan	Llaf	PC
Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Llaf	PC
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llaf	PC
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Llaf	DRh
Pen-y-bont ar Ogwr	Llaf	Ceid
Rhondda ac Ogwr	Llaf	PC
GOGLEDD CYMRU		
Conwy ac Abergele	PC	Ceid
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	PC	Ceid
Y Fflint a'r Rhyl	Ceid	Llaf
Wrecsam	Llaf	Ann
Yr Wyddgrug a Shotton	Llaf	Ceid
Ynys Môn a Bangor	PC	Llaf

2007	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
Dwyrain De Cymru	2	6	1	1	2
Canol De Cymru	4	6	1	1	0
Gorllewin De Cymru	1	6	1	4	0
Canolbarth a Gorllewin Cymru	2	3	2	5	0
Gogledd Cymru	4	4	0	3	1
CYMRU	**13**	**25**	**5**	**14**	**3**
	+1	-1	-1	-1	+2

2003	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
Dwyrain De Cymru	3	8	0	1	0
Canol De Cymru	4	6	1	1	0
Gorllewin De Cymru	1	7	2	2	0
Canolbarth a Gorllewin Cymru	2	3	2	5	0
Gogledd Cymru	2	6	0	3	1
CYMRU	**12**	**30**	**5**	**12**	**1**
	+1	-	-1	-	-

1b) STV 4 aelod gan ddefnyddio parau o etholaethau San Steffan

Byddai'n bosibl paru seddi San Steffan cyfagos i ffurfio unedau mwy a galluogi mwy o ddewis a chystadleuaeth am seddi ar lefel lleol. Yn wahanol i ran fwyaf y seddi STV dau aelod, byddai sawl plaid yn cystadlu am y sedd olaf, neu'r ddwy sedd olaf, allan o bedair. Byddai maint mwy'r seddi yn galluogi pleidiau i gael mwy nag un ymgeisydd mewn mwy o ardaloedd, ac felly ei gwneud yn fwy posibl mynd ar drywydd polisïau tuag at gydbwysedd rhwng y rhywiau.

Fodd bynnag, mae rhai risgiau wrth glytio parau o seddi San Steffan i'w defnyddio at ddibenion eraill. Mae seddi San Steffan yn debygol o fod â ffiniau tolciog (h.y. sy'n cynnwys elfennau bach o un gymuned ddaearyddol mewn sedd sy'n seiliedig yn bennaf ar etholaeth arall) a gallai'r unedau mwy hyn ailadrodd y problemau hyn. Mae'r ardaloedd trefol mwy (Caerdydd, Casnewydd, Abertawe) wedi'u rhannu i gyd rhwng seddi, ac mae seddi gwledig yn ymdrin ag ardaloedd mawr. Bydd y ffiniau hefyd yn newid yn aml pan newidir ffiniau San Steffan.

Mae bras amcan o sut y byddai STV 4 aelod wedi gweithio yng Nghymru yn 2007 yn cael ei roi isod.

		Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU						
Canolbarth Cymru	Aberhonddu a Sir Drefaldwyn, Gwynedd a Machynlleth	1	0	1	2	0
Gorllewin Cymru	Ceredigion, Penfro	1	1	1	1	0
Sir Gaerfyrddin	Caerfyrddin, Llanelli	1	1	0	2	0
CANOL DE CYMRU						
Bro Morgannwg	Y Barri a Phenarth, Dyffryn Trelái	1	2	0	1	0
Cwm Taf	Gorllewin Caerdydd, Pontypridd ac Aberdâr	0	2	1	1	0
Dwyrain Caerdydd	Canol Caerdydd, Gogledd-ddwyrain Caerdydd	1	1	2	0	0
DWYRAIN DE CYMRU						
Casnewydd a Chaerffili	Caerffili, Casnewydd	1	2	1	0	0
Cymoedd Gwent	Blaenau Gwent a Thredegar, Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	0	2	0	0	2
Trefynwy a Thorfaen	Trefynwy, Torfaen	2	2	0	0	0
GORLLEWIN DE CYMRU						
Abertawe	Gogledd Abertawe a Chasllwchwr, Gorllewin Abertawe a Gwŷr	1	1	1	1	0
Castell-nedd ac Aberafan	Castell-nedd ac Aberafan, Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	0	3	0	1	0
Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda	Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda ac Ogwr	0	3	0	1	0
GOGLEDD CYMRU						
Afon Menai	Ynys Môn a Bangor, Conwy ac Abergele	1	1	0	2	0
Sir y Fflint	Y Fflint a'r Rhyl, yr Wyddgrug a Shotton	1	2	1	0	0
Wrecsam, Dinbych a Dyffryn Conwy	Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy, Wrecsam	2	1	0	1	0

2007	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
Dwyrain De Cymru	3	6	1	0	2
Canol De Cymru	2	5	3	2	0
Gorllewin De Cymru	1	7	1	3	0
Canolbarth a Gorllewin Cymru	3	2	2	5	0
Gogledd Cymru	4	4	1	3	0
CYMRU	**13**	**24**	**8**	**13**	**2**
	+1	-2	+2	-2	+1

1c) Seddi San Steffan ag aelodau rhestr ranbarthol

Byddai'r model hwn yn ethol 30 AC o etholaethau San Steffan. Byddai gweddill y seddi yn y Cynulliad yn cael eu llenwi, fel ar hyn o bryd, ag ACau a etholir o restri rhanbarthol ar sail gydadferol. Byddai lefel y cyfranoldeb dipyn yn uwch nag y byddai ar hyn o bryd.

Byddai angen addasu ffiniau rhanbarthol i gydweddu â dosbarthiadau etholaethau newydd San Steffan, ond ni ddylai hyn fod yn llawer o broblem (addaswyd y ffiniau yn 2007) a byddai model 30 sedd yn caniatáu creu pum rhanbarth etholiadol o'r un maint.

	Amcangyfrif sedd 2007	Aelodau rhanbarthol	
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU			
Aberhonddu a Threfaldwyn	DRh	1	Llaf
Caerfyrddin	PC	2	Ceid
Ceredigion a Rhaeadr	PC	3	Llaf
Gwynedd a Machynlleth	PC	4	Ceid
Llanelli	PC	5	DRh
Penfro	Ceid	6	Llaf
CANOL DE CYMRU			
Y Barri a Phenarth	Llaf	1	PC
Canol Gaerdydd	DRh	2	Ceid
Dyffryn Teláí	Llaf	3	Ceid
Gogledd Dwyrain Gaerdydd	Ceid	4	DRh
Gorllewin Gaerdydd	Llaf	5	PC
Pontypridd ac Aberdâr	Llaf	6	Llaf
DWYRAIN DE CYMRU			
Blaenau Gwent a Thredegar	Ann	1	PC
Caerffili	Llaf	2	DRh
Casnewydd	Llaf	3	Ceid
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Llaf	4	Llaf
Torfaen	Llaf	5	PC
Trefynwy	Ceid	6	Ceid
GORLLEWIN DE CYMRU			
Castell-nedd ac Aberafan	Llaf	1	PC
Dwyrain Abertawe a'r Fro/ Castell-nedd	Llaf	2	Ceid
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llaf	3	DRh
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Llaf	4	PC
Pen-y-bont ar Ogwr	Llaf	5	Ceid
Rhondda ac Ogwr	Llaf	6	PC
GOGLEDD CYMRU			
Conwy ac Abergele	PC	1	Ceid
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	PC	2	Llaf
Y Fflint a'r Rhyl	Ceid.	3	Ceid
Wrecsam	Llaf	4	DRh
Yr Wyddgrug a Shotton	Llaf.	5	Llaf
Ynys Môn a Bangor	PC	6	Ceid

Mae dyraniadau sedd restr olaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru yn teimlo effaith a fodelwyd – yn weddol fras – ardaloedd a drosglwyddwyd ar draws ffiniau rhanbarthol (h.y. rhannau o Arfon o'r Gogledd i'r Canolbarth a'r Gorllewin, ardaloedd yng Ngŵyr o Orllewin De Cymru i'r Canolbarth a'r Gorllewin). Mae'n eithaf posibl y byddai Plaid Cymru yn ennill y chweched sedd restr yn unrhyw un o'r rhanbarthau ar draul Llafur yn y Canolbarth a'r Gorllewin a'r Ceidwadwyr yn y Gogledd. Nid yw trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r Rhondda o Ganol De Cymru i'r De Orllewin, sef trosglwyddiad tipyn yn fwy, yn gwneud cymaint o wahaniaeth.

	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
Dwyrain De Cymru	3	5	1	2	1
Canol De Cymru	3	5	2	2	0
Gorllewin De Cymru	2	6	1	3	0
Canolbarth a Gorllewin Cymru	3	3	2	4	0
Gogledd Cymru	4	4	1	3	0
CYMRU	**15**	**23**	**7**	**14**	**1**
	+3	-3	+1	-1	-

	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
ACau etholaeth	4	16	2	7	1
	-1	-8	-1	-	-
ACau rhestr	11	7	5	7	0
	+4	+5	+2	-1	-

Mae'r rhaniad 30/30 hwn rhwng rhestr ac etholaeth yn cynhyrchu canlyniad tipyn yn fwy cyfrannol, fel y gellid ei ddisgwyl, na'r rhaniad 40/20 cyfredol. Mae fel petai'n lleihau bonws yr enillydd a gaiff Llafur o'r system gyfredol, ond nid yw'n ehangu amrywiaeth y pleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad (er bod y pleidiau Gwyrdd, UKIP a BNP i gyd yn ddim ond 2-4,000 o bleidleisiau mewn un rhanbarth neu arall yn fyr o gael eu cynrychioli ar sail eu pleidleisiau yn 2007).

Mae'r rhaniad 30/30 yn rhoi cyfranoldeb cryf cywir rhwng y prif bleidiau, felly byddai Llafur yn methu'n lân â chael mwyafrif cyffredinol mewn etholiad fel 2003, gyda 26 yn lle 30.

Y rheswm yw bod llai o seddi 'gordo' yn rhanbarthau cryfach Llafur fel Gorllewin De Cymru a Chanol De Cymru nag y byddai o dan raniad 40/20. Fodd bynnag, byddai nifer cynyddol y seddi rhestr yn golygu, hyd yn oed mewn etholiadau fel 2003 pan fydd Llafur yn ennill mwyafrif y seddi etholaeth, y bydd hefyd yn cael seddi rhestr yn y rhan fwyaf o ranbarthau.

Gallai'r cydbwysedd cyfartal rhwng aelodau rhestr ac etholaeth, a chynrychiolaeth fwy cyfartal y pleidiau ym mhob categori, gael effaith ar ddiwylliant y Cynulliad. Gallai achosi statws cyfartal mwy dilys – neu fe allai waethygu tensiynau presennol a chwynion am lwythi gwaith gwahanol.

2003	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
Dwyrain De Cymru	3	7	1	1	0
Canol De Cymru	3	5	2	2	0
Gorllewin De Cymru	2	6	1	3	0
Canolbarth a Gorllewin Cymru	2	4	2	4	0
Gogledd Cymru	3	4	1	3	1
CYMRU	**13**	**26**	**7**	**13**	**1**
	+2	-4	+1	+1	-

2003	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann
ACau etholaeth	1	21	2	5	1
	-	-9	-1	-	-
ACau rhestr	12	5	5	8	-
	+2	+5	+2	+1	-

1d) Seddi San Steffan â rhestr genedlaethol

Un posibilrwydd a awgrymwyd yw diddymu'r rhanbarthau a chael yn eu lle ACau Rhestr a etholir o restr Cymru gyfan.

Heb drothwy, bydd y rhwystr rhag mynediad gyda rhestr genedlaethol o 30 aelod a Chynulliad o 60 yn isel iawn – 1.7 y cant. Byddai hyn yn galluogi nifer sylweddol o bleidiau llai i ddod i mewn i'r Cynulliad. Er enghraifft, pe byddai rhywun yn cydgasglu'r pleidleisiau rhestr yn 2007 ac yn eu dyrannu'n genedlaethol, byddai canlyniad y Cynulliad yn edrych yn dra gwahanol.

Gan ddefnyddio'r pleidleisiau rhanbarthol a fwriwyd yn 2007 a'u hadio at ei gilydd yn genedlaethol, wedyn dyrannu 20 o seddi ychwanegol gan ddefnyddio'r un dull rhanyddion ag y defnyddir ar hyn o bryd yn y rhestri rhanbarthol (D'Hondt), byddai'r seddi rhestr canlynol yn digwydd:

- 7 Ceidwadol
- 5 Plaid Cymru
- 3 Democratiaid Rhyddfrydol
- 2 BNP
- 2 UKIP
- 1 Gwyrdd

Cyfanswm y seddi ar gyfer pob plaid yn y Cynulliad felly fyddai

- 24 Llafur
- 12 Ceidwadol
- 12 Plaid Cymru
- 6 Democratiaid Rhyddfrydol
- 2 BNP
- 2 UKIP
- 1 Gwyrdd
- 1 Llais y Bobl

Byddai hyn yn ei gwneud yn llawer anoddach ffurfio clymblaid, gan na fyddai gan Lafur/Dem Rhydd, na'r dewis Enfys, fwyafrif llwyr yn y sefyllfa hon.

Pe byddai trothwy 5 y cant syml yn cael ei gymhwyso i fod yn gymwys am seddi rhestr, byddai'r pleidiau llai'n cael eu anghymwyso a dim ond i'r pedair prif blaid y byddai seddi rhestr yn cael eu dyrannu, felly:

- Llafur
  24 sedd etholaeth a 0 sedd restr: 24
- Ceidwadwyr
  5 sedd etholaeth a 9 sedd restr: 14
- Plaid Cymru
  7 sedd etholaeth a 7 sedd restr: 14
- Dem Rhydd
  3 sedd etholaeth a 4 sedd restr: 7
- Llais y Bobl
  1 sedd etholaeth 1

Bydd rhestri cenedlaethol yn tueddu i weithio yn erbyn Llafur o'u cymharu â rhestri rhanbarthol. Y rheswm yw y bydd cryfder Llafur yn rhanbarthau De Cymru yn yr etholiad etholaeth yn golygu bod angen i'r blaid gael lefel afrealistig o uchel i gymhwyso am unrhyw seddi ychwanegol ledled y genedl. Fodd bynnag, mae torri Cymru'n rhanbarthau yn golygu nad yw tra-awdurdod Llafur yng Ngorllewin De Cymru'n effeithio ar ei hawl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Nid yw unrhyw blaid arall yn llywodraethu i'r un graddau mewn unrhyw ranbarth.

Byddai'n berffaith bosibl cael rhestr genedlaethol i lenwi 30 sedd ac etholaethau San Steffan i lenwi'r 30 arall, ond yn ôl pob tebyg byddai'n mynnu gosod trothwy. Byddai hefyd yn gwanhau atebolrwydd yr aelodau rhestr genedlaethol. Gydag etholaethau mwy ar gyfer yr ACau a etholir yn lleol, byddai perygl y gallai llywodraeth ac aelodau Cynulliad Cymru bellhau oddi wrth eu hetholwyr.

Mae'n debyg nad yw dewis y rhestr genedlaethol yn ddeniadol.

2. Templed unigryw

Byddai hyn yn golygu datgysylltu etholaethau'r Cynulliad a San Steffan, a byddai angen darn o ddeddfwriaeth i wneud hyn sef rhywbeth yn debyg i Ddeddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004. Mae'n bosibl y gellid ei phlygu i mewn i ddarn mwy o ddeddfwriaeth, naill ai i drosglwyddo pwerau pellach neu i ailysgrifennu'r rheolau i Gomisiynau Ffiniau San Steffan.

Y brif broblem gyda phob ateb templed unigryw yw diffyg cydffiniol deb: ni fyddai etholaethau canlyniadol y Cynulliad yn cydweddu â seddi San Steffan na ffiniau awdurdod lleol. Yn yr Alban, mae clytwaith o ffiniau croesymgroes ar gyfer tair lefel o lywodraeth ac nid ydynt yn cydweddu o gwbl. Mae'n achosi sefyllfa gymhleth i drefnu pleidiau, er ei bod i'w weld yn cael ei hystyried yn sefyllfa gynaliadwy yn yr Alban.

2a) Templed unigryw gyda MMP

Byddai un templed unigryw i etholaethau'r Cynulliad yn caniatáu cadw'r system etholiadol gyfredol, yn seiliedig ar fodel y trefniadau etholiadol ar gyfer Senedd yr Alban. Gallai rhywun gadw (tua) 40 etholaeth ac 20 (neu fwy) o aelodau rhanbarthol fel ar hyn o bryd, a sefydlu gwahanol weithdrefn adolygu ffiniau ar gyfer etholaethau a rhanbarthau'r Cynulliad i'r weithdrefn honno sydd ar waith yn San Steffan. Mae'r fath adolygiad yn digwydd ar hyn o bryd ar gyfer ardaloedd etholiadol Senedd yr Alban. Byddai'n bosibl teilwra etholaethau'r Cynulliad ac, yn y system MMP, caniatáu amrywiadau mwy ar y maint cyfartalog nag a ganiateir i San Steffan i ymdopi â ffactorau daearyddol a chymdeithasol, yn arbennig yng Ngorllewin a Gogledd Cymru. Mae'r seddi rhanbarthol ychwanegol yn gwneud iawn am feintiau etholaethau anghyfartal, yn arbennig os crëir mwy ohonynt (Cynulliad o 45 sedd etholaeth a 25 sedd restr, er enghraifft).

Er bod hwn yn ddewis 'newid lleiaf', ar yr wyneb, byddai'n achosi problemau ffiniau

tymor hir gan y byddai tair set drawsbynciol wahanol o ffiniau etholiadol – llywodraeth leol, San Steffan a'r Cynulliad. Byddai seddi Cynulliad yn aml yn cael eu rhannu rhwng gwahanol etholaethau San Steffan a byddai achosion lle na fyddai rhanbarthau'n cyfateb i ffiniau llywodraeth leol na San Steffan. Gellid ystyried bod hyn yn oddefadwy, fel yn yr Alban, yn arbennig os yw cyfrifoldeb wedi'i rannu'n gliriach rhwng San Steffan a'r Cynulliad.

2b) Templed unigryw gyda STV

Yn hytrach na llunio map o etholaethau a rhanbarthau aelod sengl at ddefnydd y Cynulliad yn unig, byddai'n bosibl llunio rhanbarthau STV aml-aelod nad oes angen iddynt gyfateb i etholaethau San Steffan (naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau). Yn yr un modd â thempled unigryw a MMP, gellid addasu nifer aelodau'r Cynulliad i wneud lle i dwf y sefydliad (naill ai'n raddol neu'r cyfan ar y tro fel yr argymhellir yn adroddiad Comisiwn Richard).

Mae STV yn hyblyg o ran maint etholaeth, felly gellid llunio rhanbarthau o ran daearyddiaeth ffisegol a chymdeithasol. Gellir cwtogi hefyd ar drawstorri lefelau eraill o ddaearyddiaeth weinyddol.

Fodd bynnag, mae dewis cyfleus yn bodoli gyda'r STV a'r map llywodraeth leol cyfredol – sef defnyddio awdurdodau lleol cyfan yn sail i ffurfio etholaethau STV, y byddai ganddo wedyn resymeg gymdeithasol a gweinyddol barod.

3. Templed llywodraeth leol

Un ateb arall i broblem ffiniau'r Cynulliad fyddai defnyddio'r map llywodraeth leol, yn hytrach na ffiniau San Steffan neu set o ffiniau a lunnir yn arbennig.

Mae gan y map llywodraeth leol fantais dros ffiniau San Steffan sef ei fod yn adlewyrchu hunaniaethau cymunedol sefydledig, tra bydd etholaethau San Steffan yn cael eu llunio mwyfwy (a'u hail-lunio'n aml) i gyfateb i nifer delfrydol mympwyol o etholwyr. Mae llywodraeth leol yn debygol o fod yn sefydlog, neu o leiaf yn destun llai o newidiadau a newidiadau llai difrifol nag etholaethau San Steffan.

Wrth reswm, mae'n bosibl y gallai llywodraeth leol gael ei had-drefnu yn y dyfodol yn un o gyfnodau llywodraeth y Cynulliad, a chynhyrchu unedau mwy fel y gwnaethpwyd yn ddiweddar wrth ad-drefnu'r GIG yng Nghymru.

Byddai'r unedau mwy hyn (fel Caerdydd yn y ffurfwedd gyfredol) yn parhau'n sail i etholaethau ond, yn ôl pob tebyg, byddai angen eu rhannu er mwyn creu unedau â hunaniaeth gymunedol hydrin. Mae'r broblem hon yn fwy pell na'r broblem sy'n dod i'r amlwg gydag etholaethau San Steffan, a phan fydd wedi'i newid bydd y map llywodraeth leol newydd yn sefydlogi ac yn aros yr un fath am gryn amser.

Byddai defnyddio awdurdodau lleol cyfredol yn caniatáu i ardal ganfyddadwy ethol ei ACau drwy STV, a phob un ohonynt o'r un statws.

Un ffactor llai, ar hyn o bryd, yw bod etholfraint y Cynulliad yr un fath â'r etholfraint ar gyfer llywodraeth leol, ond nid yw'r etholfraint ar gyfer San Steffan yn cynnwys dinasyddion gwladwriaethau eraill yr UE i bleidleisio. Mae hyn yn effeithio ar gymharol ychydig o ardaloedd yng Nghymru ar hyn o bryd (yng nghanol Llundain mae'r bwlch rhwng etholaeth San Steffan ac etholaeth llywodraeth leol yn fawr), ond mae lle i hwn dyfu dros amser.

Am ryw reswm, mae'r rhifyddeg ar gyfer STV mewn unedau llywodraeth leol yn gweithio'n arbennig o dda gyda maint Cynulliad o 68 a'r

rhifau cyfredol, ond o'i haddasu gallai weithio i feintiau eraill o Gynulliad. Byddai 2-5 AC fesul ardal awdurdod lleol, ac eithrio Caerdydd gan fod ei hawl i 7 AC yn golygu y gallai naill ai fod yn sedd 7 aelod gyfan neu, yn fwy tebygol, cael ei rhannu'n sedd 3 aelod a 4 aelod.

Nid yw hawl Merthyr Tudful yn ddigon mawr i gael sedd aml-aelod. I bob pwrpas, mae dau ddewis i ffurfio etholaeth Cynulliad – naill ai ei chael fel sedd Pleidlais Amgen (AV) aelod sengl, neu ei chyfuno â chyngor Caerffili mewn sedd (5 aelod) gymharol fawr. Byddai Sir Fynwy a Thorfaen yn gweithio naill ai fel dwy sedd 2 aelod, neu fel sedd 4 aelod gyfunol.

	Etholaeth llywodraeth leol 12/08	Hawl i seddi	Seddi enghreifftiol	Cymhareb cyfran o bleidleisiau delfrydol/seddi
Blaenau Gwent	53,234	1.59	2	0.79
Pen-y-bont ar Ogwr	104,367	3.11	3	1.04
Caerffili	129,814	3.87	5*	1.03*
Caerdydd	245,955	7.34	7	1.05
Sir Gaerfyrddin	131,856	3.93	4	0.98
Ceredigion	56,275	1.68	2	0.84
Conwy	89,894	2.68	3	0.89
Sir Ddinbych	74,219	2.21	2	1.11
Sir y Fflint	115,538	3.45	3	1.15
Gwynedd	86,067	2.57	3	0.86
Ynys Môn	51,031	1.52	2	0.76
Merthyr Tudful	43,348	1.29	*gyda Chaerffili	
Sir Fynwy	68,846	2.05	4**	1.04**
Castell-nedd Port Talbot	110,594	3.30	3	1.10
Casnewydd	102,934	3.07	3	1.02
Sir Benfro	93,758	2.80	3	0.93
Powys	103,227	3.08	3	1.03
Rhondda, Cynon, Taf	172,604	5.15	5	1.03
Abertawe	183,920	5.49	5	1.10
Torfaen	70,014	2.09	**gyda Sir Fynwy	
Bro Morgannwg	92,274	2.75	3	0.92
Wrecsam	100,010	2.98	3	0.99
CYMRU			**68**	

Mae'r golofn olaf yn dangos i ba raddau y byddai'r sedd yn gwyro oddi wrth nifer delfrydol yr etholwyr fesul AC (33,526 o etholwyr). Daw'r rhan fwyaf o seddi yn weddol agos i'r maint delfrydol (ar gyfer Cynulliad 68 aelod – nid yw'r rhifyddeg yn gweithio cystal i 60 aelod) gydag ambell un anghysbell (Blaenau Gwent, Ynys Môn, Ceredigion) yn syrthio y tu allan i amrywiad 20 y cant.

2007	Cyfanswm	Ceid	Llaf	DRh	PC	Arall
Blaenau Gwent	2		1			1
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1	2			
Caerffili a Merthyr Tudful	5		2		1	2
Dwyrain Caerdydd	3	1	1	1		
Gorllewin Caerdydd	4	1	2	1		
Sir Gaerfyrddin	4	1	1		2	
Ceredigion	2			1	1	
Conwy	3	1	1		1	
Sir Ddinbych	2	1	1			
Sir y Fflint	3	1	2			
Gwynedd	3		1		2	
Ynys Môn	2				1	1
Sir Fynwy a Thorfaen	4	1	2	1		
Castell-nedd Port Talbot	3		2		1	
Casnewydd	3	1	1	1		
Sir Benfro	3	1	1		1	
Powys	3	1		2		
Rhondda, Cynon, Taf	5		3	1	1	
Abertawe	5	1	2	1	1	
Bro Morgannwg	3	1	1		1	
Wrecsam	3	1	1		1	
CYMRU	**68**	**14**	**27**	**9**	**14**	**4**
	+8	+2	+1	+3	-1	+3

Dengys y canlyniadau fod STV 2-5 aelod gan ddefnyddio ffiniau awdurdod lleol, fel MMP 40/20, yn fras gyfrannol (ond sylwer mai'r bleidlais etholaeth, yn hytrach na'r bleidlais rhestr ranbarthol, yw'r sail modelu STV sy'n achosi rhai anghysondebau amlwg). Y prif wahaniaeth yw bod STV yn ethol sawl ymgeisydd Annibynnol yng Nghymoedd Gwent yn hytrach nag un yn unig; o dan MMP nid oes ganddynt y gefnogaeth eang ar draws rhanbarth i ennill sedd ranbarthol nac, y tu allan i Flaenau Gwent, ddigon o grynodiad lleol i ennill etholaeth. Ond mae ganddynt ddigon o gryfder ar draws Caerffili a Merthyr, ac yn ôl pob tebyg digon o gefnogaeth gan drosglwyddiadau o bleidleiswyr Ceidwadol, Dem Rhydd a Phlaid i ennill dwy sedd.

Mae'n debyg nad yw Plaid Cymru yn gwneud yn dda o dan y math hwn o STV, er nad yw hyn yn anochel yn ôl pob tebyg. Daeth yn agos at gael tair sedd yn fwy ym model 2007. Er bod y canlyniadau enghreifftiol fel petaent yn trin y Ceidwadwyr yn well yn 2003 a 2007, maent yn ôl pob tebyg tuag at frig eu hamrediad realistig, tra bo mwy o le gan Blaid Cymru i dyfu.

2003	Cyfanswm	Ceid	Llaf	DRh	PC	Arall
Blaenau Gwent	2		2			
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1	2			
Caerffili a Merthyr Tudful	5		4		1	
Dwyrain Caerdydd	3	1	1	1		
Gorllewin Caerdydd	4	1	2	1		
Sir Gaerfyrddin	4		2		2	
Ceredigion	2			1	1	
Conwy	3	1	1		1	
Sir Ddinbych	2	1	1			
Sir y Fflint	3	1	1	1		
Gwynedd	3		1		2	
Ynys Môn	2	1			1	
Sir Fynwy a Thorfaen	4	2	2			
Castell-nedd Port Talbot	3		2		1	
Casnewydd	3	1	2			
Sir Benfro	3	1	1		1	
Powys	3	1		2		
Rhondda, Cynon, Taf	5		4		1	
Abertawe	5	1	2	1	1	
Bro Morgannwg	3	1	2			
Wrecsam	3	1	1			1
CYMRU	**68**	**15**	**33**	**7**	**12**	**1**
	+8	+4	+3	+1	-	-

Asesiad

Rhoir canlyniad amgen ar gyfer pob un o'r modelau ar gyfer 2007 yn y tabl isod. Fel y gall rhywun ei weld, mae lefel gyffredinol y cyfranoldeb yn eithaf tebyg, gyda'r Ceidwadwyr rhwng 12 a 15, Llafur rhwng 23 a 26 (27 mewn Cynulliad mwy), y Democratiaid Rhyddfrydol rhwng 5 ac 8 (9 mewn Cynulliad mwy) a Phlaid Cymru rhwng 12 a 15.

2007	Ceid	Llaf	DRh	PC	Ann/Arall
Canlyniad gwirioneddol	12	26	6	15	1
STV 2 aelod yn etholaethau San Steffan	13	25	5	14	3
STV 4 aelod mewn parau San Steffan	13	24	8	13	2
30/30 seddi San Steffan a rhestr ranbarthol	15	23	7	14	1
40/20 seddi San Steffan a rhestr genedlaethol heb drothwy	12	24	6	12	6
40/20 seddi San Steffan a rhestr genedlaethol â throthwy o 5%	14	24	7	14	1
STV 2-5 aelod mewn awdurdodau lleol (68 o seddi i gyd)	14	27	9	14	4

Mae'n debyg mai'r meini prawf i asesu systemau yn erbyn ei gilydd fyddai:

Cyfranoldeb

Nid oes llawer iawn i'w ddewis o ran cyfranoldeb y systemau, yn seiliedig ar y canlyniadau enghreifftiol ar gyfer 2007 a amlinellir yma. Rhestr genedlaethol heb drothwy yw'r dewis mwyaf cyfrannol, a'r system gyfredol, MMP rhanbarthol 40/20, yw'r lleiaf cyfrannol yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, mae'r holl systemau hyn fel petaent yn dderbyniol o gyfrannol ac yn llawer gwell na'r systemau Cyntaf i'r Felin neu Bleidlais Amgen yn y cyd-destun hwn.

Cyfraniad at lywodraeth sefydlog

Prin y mae gan y rhan fwyaf o amrywiolion a ddadansoddwyd yma lawer i'w ddewis o'u plith, ac eithrio MMP rhestr genedlaethol heb drothwy o gwbl. Byddai hyn yn ei gwneud yn sylweddol anoddach ffurfio clymblaid a byddai'n tueddu i ddryllio cyfansoddiad y Cynulliad. O dan yr holl amrywiolion, o ystyried ffurfwedd wleidyddol Cymru fodern, byddai mwyafrifoedd llwyr yn ddigwyddiad prin.

Atebolrwydd i etholwyr

Mae STV yn sgorio'n uwch o ran atebolrwydd na systemau â chydran rhestr gaeedig, gan fod pob AC wedi wynebu'r etholaeth yn gyfartal. MMP gyda rhestr genedlaethol yw'r lleiaf atebol o'r systemau hyn, gan y bydd aelodau Cymru gyfan yn destun yr atebolrwydd gwannaf ac eithrio i'w detholwyr plaid.

Cydffiniol deb ffiniau â mathau eraill o etholiad

Mae'n well cael ffiniau syml ar y sail y bydd etholwyr yn uniaethu'n agosach â'u cynrychiolwyr gwleidyddol ar draws sawl haen. Bydd pleidiau gwleidyddol yn ei chael yn anodd hefyd trefnu pryd y bydd yr ardal berthnasol yn wahanol ar wahanol lefelau – gallai rhywun ddychmygu cyfarfod plaid lle byddai aelodau'n dawnsio gwerin i mewn ac allan o hawliau pleidleisio llawn gan ddibynnu a oedd y materion dan sylw yn bryderon llywodraeth leol, Cymru neu'r DU. Yn hyn o beth, byddai'n well dilyn ffiniau San Steffan neu unedau llywodraeth leol na chadw templed unigryw i etholiadau'r Cynlluniad ar batrwm yr Alban.

Sefydlogrwydd ffiniau dros amser

Mae ffiniau sy'n newid o hyd yn broblem i etholwyr a sefydliadau gwleidyddol wrth gynnal y berthynas rhwng y cynrychiolydd a'r ardal y mae'n siarad drosti. Mae'r cynllun Ceidwadol ar gyfer ffiniau San Steffan yn golygu y bydd y rhain yn newid yn aml iawn – yn fwy na thebyg, bydd rhai'n newid bob senedd wrth i etholaethau dyfu neu leihau y tu hwnt i'r ffin goddefgarwch 3.5 y cant a ganiateir. Mae mabwysiadu etholaethau San Steffan fel sail yn golygu y bydd trefniadau etholiadol y Cynulliad yn newid yn aml hefyd, gan gynnwys ffiniau rhanbarthol os oes elfen ranbarthol i'r system. Efallai'n wir y bydd diwygio o ryw fath bob tro y bydd etholiad cyffredinol i'r Cynulliad. Byddai defnyddio templed unigryw, fel ar hyn o bryd, yn golygu y byddai ffiniau'n newid bob tri thymor y Cynulliad (weithiau dau). Mae defnyddio awdurdodau lleol yn sail i STV yn fwy sefydlog, gan nad yw'r ffiniau'n newid ond unwaith bob tro y diwygir llywodraeth leol (1974, 1995 ac efallai rywbryd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf). Gellir darparu ar gyfer newid poblogaeth drwy ychwanegu ACau ychwanegol at seddi aml-aelod presennol (neu eu tynnu i ffwrdd ohonynt).

Ffiniau'n cyfateb i hunaniaeth gymunedol

Ni fydd etholaethau San Steffan yn cyfateb yn dda iawn i hunaniaeth gymunedol, fel y dangoswyd yn yr etholaethau enghreifftiol (er bod y rhain yn cyfateb yn gymharol dda i gymunedau, o ystyried y rhwystrau rhifyddeg). Gall rhywun dybio bod awdurdodau lleol yn cael eu llunio â hunaniaeth gymunedol mewn golwg a phan fyddant wedi bodoli ers cryn dipyn eu bod yn ennill nodweddion cymunedol yn eu rhinwedd eu hunain (fel y mae'r cynghorau bwrdeistref wedi'i wneud yn Llundain ers eu creu ym 1964). Mae cymunedau'n amrywio o ran maint, ac mae'r etholaethau aml-aelod o dan STV, a seddi aelod sengl o dan MMP os oes templed unigryw, yn darparu ar gyfer y ffaith hon.

Argymhelliad

Mae’n debyg bod STV 2-5 aelod yn seiliedig ar awdurdodau lleol yn ymgeisydd cadarn iawn ar gyfer system etholiadol y dyfodol i Gymru.

Mae canlyniadau STV 2 aelod yn seiliedig ar etholaethau San Steffan efallai’n syndod o dda o ran cyfranoldeb ar gyfer 2007 a 2003, er gallai achosi problemau yn y tymor hwy oherwydd ansefydlogrwydd ffiniau San Steffan a’u diffyg cytgord â chymunedau.

Wrth reswm, byddai angen archwilio’r sefyllfa ymhellach pe byddai llywodraeth leol yn cael ei diwygio.

Atodiad 1: Cymru mewn tri deg etholaeth

Mae'n bolisi gan y Blaid Geidwadol ailddosbarthu etholaethau San Steffan fel y cwtogir 10 y cant ar faint Tŷ'r Cyffredin yn y DU ac y bydd seddi'n amrywio 5 y cant ar y mwyaf (Tachwedd 2009 – 3.5 y cant oedd y polisi o fis Chwefror 2010) i bob pen o'r cwota delfrydol. Os caiff ei weithredu, bydd hyn yn golygu y bydd maint yr etholaeth gyffredin tua 77,000 o etholwyr.

Gyda'r ateb 30 sedd a fabwysiadwyd yma, mae nifer o seddi yn y Gogledd a'r Gorllewin yn arbennig sy'n agos at y terfyn isaf, a gallai anwadaliadau olygu nad oes digon o etholwyr yn yr ardaloedd hyn i wneud i'r model weithio yn ei gyfanrwydd. Os felly, yr ateb yn ôl pob tebyg fyddai tynnu etholwyr pellach o ogledd Powys a Cheredigion i ychwanegu swmp at seddi Gogledd Cymru a thynnu ychydig yn fwy allan o Abertawe ac efallai Cwm Nedd.

Y ffigurau etholaeth a ddefnyddir yw'r rheini ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol mewn ffurflenni cynghorau i adolygiad y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol o ranbarthau etholiadol yng Nghymru. Mae rhai anomaleddau ac anghysondebau yn y data hwn, ac nid yw cyfanswm cyngor gyfan o reidrwydd yr un fath â swm rhannau'r cyngor hwnnw. Mae hyn (a'r gwahaniaeth bach rhwng etholfraint San Steffan ac etholaeth llywodraeth leol) yn achosi i rywfaint o gywirdeb manwl artiffisial ymlithrio i'r ymarfer hwn. Un elfen arall, os bydd a phan fydd seddi San Steffan yn cael eu hailddosbarthu felly, yw y bydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi gorffen ei waith yn ôl pob tebyg, ac wedi ail-lunio ffiniau'r adrannau etholiadol, ac y bydd templed newydd i weithio ohono. Dylai hyn olygu bod angen addasiadau cymharol fân i'r cynllun, er byddai angen ailystyried yn fwy difrifol pe byddai unrhyw un o'r etholaethau drafft hyn yn cael eu gwneud yn annichonadwy. Byddai'r trothwy 3.5 y cant hefyd yn golygu bod angen diwygio'r patrwm a adlewyrchwyd gennym yma.

Rydym wedi ymdrechu i ddefnyddio methodoleg debyg i'r fethodoleg honno a ddefnyddiodd y Comisiwn Ffiniau, ac wedi osgoi ystyried yr effaith bleidiol wrth lunio'r etholaethau. Mae eu gwedd bleidiol wedi'i hasesu wedyn, nid fel rhan o'u creu. Rydym wedi ceisio peidio â rhannu adrannau etholiadol cyngor rhwng etholaethau, ond bu hynny'n synhwyrol neu'n angenrheidiol weithiau a byddai newid yn rheolau'r Comisiwn yn caniatáu hyn pe byddai'r polisi'n cael ei gyflwyno.

Pe byddai ailddosbarthiad 30 sedd San Steffan yn digwydd, byddai golwg wahanol arno'n fanwl yn ôl pob tebyg, ond mae hyn yn rhoi syniad o'r etholaethau a'u cyfansoddiad tebygol.

Rhanbarth Dwyrain De Cymru

Yr ardal honno sy'n cael sylw gan awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Etholaeth Trefynwy (78,292)

O etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd:
Adrannau etholiadol Llanwern, Langstone o gyngor Casnewydd.
Adrannau etholiadol Castell Cil-y-coed, Dewstone, Green Lane, Mill, Llanfihangel Rogiet, Hafren, The Elms, West End o gyngor Sir Fynwy.
O etholaeth bresennol Trefynwy:
Cyngor Sir Fynwy (adrannau etholiadol heblaw'r rheini sydd yn Nwyrain Casnewydd ar hyn o bryd).
Dau o ranbarthau etholiadol cyngor Torfaen (De Llan-yr-afon, Gogledd Llan-yr-afon).

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Trefynwy	59,384	75.8
Dwyrain Casnewydd	18,908	24.2

Etholaeth Torfaen (78,434)

O etholaeth bresennol Trefynwy:
Adrannau etholiadol Gogledd Croesyceiliog, De Croesyceiliog o gyngor Torfaen.
O etholaeth bresennol Torfaen:
Bwrdeistref Torfaen (heb Llan-yr-afon a Chroesyceiliog).
O etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd:
Adrannau etholiadol Gaerllion, Malpas o Gasnewydd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Torfaen	61,704	78.7
Gorllewin Casnewydd	12,446	15.9
Trefynwy	4,284	5.5

Etholaeth Casnewydd (75,491)

Adrannau etholiadol Casnewydd:
Alway, Beechwood, Lliswerry, Ringland, St Julian's, Victoria o etholaeth gyfredol Dwyrain Casnewydd.
Allt-yr-yn, y Betws, Gaer, Pilgwenlli, Tŷ'-du, Shaftesbury, Stow Hill, Parc Tredegar o etholaeth gyfredol Gorllewin Casnewydd

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Gorllewin Casnewydd	39,955	52.9
Dwyrain Casnewydd	35,536	47.1

Etholaeth Blaenau Gwent a Thredegar (78,027)

O etholaeth gyfredol Blaenau Gwent:
Cyngor Blaenau Gwent.
O etholaeth gyfredol Islwyn:
Adrannau etholiadol Argoed, Crymlyn, Trecelyn, Penmaen o gyngor Caerffili.
O etholaeth gyfredol Merthyr Tudful a Rhymni:
Adrannau etholiadol Moriah, Tredegar Newydd, Pontlotyn, Twyn Carno o gyngor Caerffili.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Blaenau Gwent	53,051	68.0
Islwyn	14,970	19.2
Merthyr Tudful a Rhymni		

Etholaeth Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach (tua 78,860)

O etholaeth gyfredol Merthyr Tudful a Rhymni:
Cyngor Merthyr Tudful.
Adran etholiadol Cwm Darran o gyngor Caerffili.
O etholaeth gyfredol Caerffili:
Adrannau etholiadol Bargoed, Gilfach, Hengoed, Nelson, St Cattwg, Ystrad Mynach o gyngor Caerffili a holl adran etholiadol Llanbradach ac eithrio rhan fechan ar ymylon tref Caerffili.
O etholaeth gyfredol Islwyn:
Adrannau etholiadol Aberbargoed, Cefn Forest, Pengam o gyngor Caerffili.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Merthyr Tudful a Rhymni	45,024	57.1
Caerffili	25,623	32.5
Islwyn	8,213	10.4

Etholaeth Caerffili (tua 78,773)

O etholaeth gyfredol Caerffili:
Adrannau etholiadol Gwm Aber, Bedwas ac ati, Morgan Jones, Penyrheol, St James, St Martin's o gyngor Caerffili, a rhan fechan o adran etholiadol Llanbradach sy'n agos i dref Caerffili.
O etholaeth gyfredol Islwyn:
Adrannau etholiadol Abercarn, y Coed-duon, Crosskeys, Maesycwmer, Pontllan-fraith, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, Ynysddu o gyngor Caerffili O etholaeth gyfredol Gorllewin Casnewydd:
Adrannau etholiadol Marshland, Graig o gyngor Casnewydd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Caerffili	37,276	47.3
Islwyn	32,412	41.1
Gorllewin Casnewydd	9,085	11.5

Canol a Gorllewin De Cymru

Yr ardal honno sy'n cael sylw gan awdurdodau lleol Caerdydd, Rhondda-Cynon-Taf a Bro Morgannwg; Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd-Port Talbot ac Abertawe.

Os yw rhanbarthau 6 etholaeth am gael eu creu at ddibenion y Cynulliad, bydd angen i'r ffin dorri ar draws ffiniau awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda-Cynon-Taf (fel yn wir y mae'r ffiniau rhanbarthol cyfredol).

Canol De Cymru

Etholaeth Gogledd Ddwyrain Caerdydd (75,345)

Adrannau etholiadol Caerdydd:
Llanrhymni, Tredelerch a Trowbridge o etholaeth gyfredol De Caerdydd a Phenarth.
Llys-faen, Llanisien, Pontprennau/ Hen Laneirwg, Rhiwbeina o etholaeth gyfredol Gogledd Caerdydd.
Cyncoed, Pentwyn o etholaeth gyfredol Canol Caerdydd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Gogledd Caerdydd	31,423	41.7
De Caerdydd a Phenarth	24,959	33.1
Canol Caerdydd	18,963	25.2

Etholaeth Gorllewin Caerdydd (tua 74,061)

Adrannau etholiadol Caerdydd:
Grangetown o etholaeth gyfredol De Caerdydd a Phenarth.
Treganna, Tyllgoed, Llandaf, Radur, Glan yr Afon o etholaeth gyfredol Gorllewin Caerdydd.
Gogledd Llandaf, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais a rhyw 3,000 o etholwyr o'r Mynydd Bychan o etholaeth gyfredol Gogledd Caerdydd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Gorllewin Caerdydd	40,730	55.0
Gogledd Caerdydd	21,279	28.7
De Caerdydd a Phenarth	12,052	16.3

Etholaeth Canol Caerdydd (tua 74,574)

Adrannau etholiadol Caerdydd:
Butetown, y Sblot o etholaeth gyfredol De Caerdydd a Phenarth.
Adamsdown, Cathays, Pen-y-lan, Plasnewydd o etholaeth gyfredol Canol Caerdydd.
Gabalfa a rhyw 6,708 o etholwyr o'r Mynydd Bychan o etholaeth gyfredol Gogledd Caerdydd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Canol Caerdydd	45,105	60.5
De Caerdydd a Phenarth	15,956	21.4
Gogledd Caerdydd	13,513	18.1

Etholaeth Dyffryn Trelái (tua 73,196*)

Adrannau etholiadol Caerdydd: Caerau, Creigiau/ Sain Ffagan, Trelái, Pentyrch o etholaeth gyfredol Gorllewin Caerdydd.
Adrannau etholiadol Bro Morgannwg: y Bont-faen, Lland/Ewenni, Llanbedr-y-fro, Saint-y-brid, Gwenfô a rhyw 3,000 o etholwyr o ardaloedd Sain Dunwyd a gogledd y Rhws o adrannau etholiadol Llanilltud Fawr a'r Rhws o etholaeth gyfredol Bro Morgannwg.
Adrannau etholiadol Rhondda-Cynon-Taf:
Llanharan, Llanhari o etholaeth gyfredol Ogwr.
Beddau, Gartholwg, Tref Llantrisant, Llanilltud Faerdre, Pont-y-clun, Tonysguboriau, Ton-teg, Ty'n y nant o etholaeth gyfredol Pontypridd.
*Mae ffigurau etholaeth Bro Morgannwg yn ôl adran etholiadol yn 2008 yn tangyfrif yr etholaeth tua 4,000. Mae etholaeth gyfan y sedd yn 2009 yn debygol o fod yn agos i 75,000.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Pontypridd	29,054	38.9
Gorllewin Caerdydd	23,169	31.0
Bro Morgannwg	17,395	23.3
Ogwr	5,078	6.8

Etholaeth y Barri a Phenarth (rhyw 73,652*)

Adrannau etholiadol Bro Morgannwg:
Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St Augustine's, Stanwell, Sili o etholaeth gyfredol De Caerdydd a Phenarth.
Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Court, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Sain Tathan a'r rhan fwyaf o etholwyr o'r Rhws a Llanilltud Fawr o etholaeth gyfredol Bro Morgannwg.
*Mae ffigurau etholaeth Bro Morgannwg yn ôl adran etholiadol yn 2008 yn tangyfrif yr etholaeth tua 4,000. Mae etholaeth gyfan y sedd yn 2009 yn debygol o fod yn agos i 75,000.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Bro Morgannwg	54,276	71.3
De Caerdydd a Phenarth	21,876	28.7

Etholaeth Pontypridd ac Aberdâr (76,594)

Adrannau etholiadol Rhondda-Cynon-Taf:
Graig, y Ddraenen Wen, Tref Pontypridd, Rhondda, Canol Rhydfelen/Ilan, Ffynnon Taf, Trallwn, Trefforest, Ty'n y nant o etholaeth gyfredol Pontypridd.
Gogledd Aberaman, De Aberaman, Abercynon, Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, Cilfynydd, Cwmbach, Glyncoch, Hirwaun, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr, Pen-y-waun, y Rhigos, Ynysybwll sy'n cynnwys etholaeth gyfredol gyfan Cwm Cynon.
Y Cymer o etholaeth gyfredol Rhondda.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Cwm Cynon	50,984	64.4
Pontypridd	24,068	30.4
Rhondda	4,120	5.2

Gorllewin De Cymru

Etholaeth Rhondda ac Ogwr (75,838)

Adrannau etholiadol Rhondda-Cynon-Taf:
Cwm Clydach, Glynrhedynog, Llwynypïa, Maerdy, Pentre, Pen-y-graig, Porth, Tonypandy, Trealaw, Treherbert, Treorci, Tylorstown, Ynyshir, Ystrad, sy'n cynnwys pob adran etholiad ond Cymer o etholaeth gyfredol Rhondda.
Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail o etholaeth gyfredol Pontypridd.
Brynna, y Gilfach-goch o etholaeth gyfredol Ogwr.
Adrannau etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr:
Melin Ifan Ddu, Nant-y-moel, Cwm Ogwr, Felindre, Hendre, Penprysg o etholaeth gyfredol Ogwr.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Rhondda	48,048	63.4
Ogwr	19,113	25.2
Pontypridd	8,677	11.4

Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr (75,991)

Adrannau etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr:
Abercynffig, Betws, Blaengarw, Bryncethin, Bryncoch, Cefn Cribwr, Llangeinwyr, Llangynwyd, Pontycymer, Sarn, Ynysawdre o etholaeth gyfredol Ogwr.
Etholaeth gyfredol gyfan Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Pen-y-bont ar Ogwr	58,399	76.8
Ogwr	17,592	23.2

Etholaeth Castell-nedd ac Aberafan (74,811)

Adrannau etholiadol Castell-nedd-Port Talbot:
Cimla, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Pelenna o etholaeth gyfredol Castell-nedd.
Aberafan, Baglan, Dwyrain Lansawel, Gorllewin Llansawel, Bryn a Chwmafan, Cymer, Glyncorrwg, Gwynfi, Margam, Port Talbot, Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, Tai-bach o etholaeth gyfredol Aberafan.
Adrannau etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr Caerau, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg o etholaeth gyfredol Ogwr.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Aberafan	45,256	60.5
Castell-nedd	16,300	21.8
Ogwr	13,255	17.7

Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd (tua 77,901)

Adrannau etholiadol Abertawe:
Bôn-y-maen, Llansamlet, St Thomas o etholaeth gyfredol Dwyrain Abertawe.
Rhan fechan o Glydach o etholaeth gyfredol G yr (tua 464 o etholwyr).
Adrannau etholiadol Castell-nedd-Port Talbot:
Canol Coed-ffranc, Gogledd Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc o etholaeth gyfredol Aberafan.
Aberdulais, Allt-wen, Blaengwrach, Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Crynant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glyn-nedd, Godre'r-graig, Gwauncaegurwen, Brynaman Isaf, Onllwyn, Pontardawe, Resolfen, Rhos, Blaendulais, Tonna, Trebannws, Ystalyfera o etholaeth gyfredol Castell-nedd.
Adrannau etholiadol Powys Aber-craf, Cwm-twrch, Ynyscedwyn, Ystradgynlais (sy'n ffurfio Ystradgynlais gyda'i gilydd) a Thawe Uchaf o etholaeth gyfredol Aberhonddu a Sir Faesyfed.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Castell-nedd	42,410	53.8
Dwyrain Abertawe	20,519	26.0
Aberhonddu a Sir Faesyfed	8,513	10.8
Aberafan	6,948	8.8
Gwŷr	464	0.6

Gogledd Abertawe a Chasllwchwr (tua 74,988)

Adrannau etholiadol Abertawe:
Cwmbwrla, Landore, Treforys, Mynyddbach, Penderry o etholaeth gyfredol Dwyrain Abertawe.
Y Cocyd o etholaeth gyfredol Gorllewin Abertawe.
Gorseinon, Tre-gwŷr, Kingsbridge, Casllwchwr Isaf, Penyrheol, Casllwchwr Uchaf, a'r rhan fwyaf o adrannau etholiadol Clydach (rhan orllewinol, tua 5,487), Llangyfelach (rhan ddwyreiniol, tua 1,884) a Mawr (rhan ddwyreiniol, tua 913) o etholaeth gyfredol Gwŷr.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Dwyrain Abertawe	39,392	51.7
Gwŷr	26,269	34.5
Gorllewin Abertawe	10,574	13.9

Gorllewin Abertawe a Gwŷr. (77,775)

Adrannau etholiadol Abertawe:
Castle, Dynfant, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Mayals, Sgeti, Townhill, Uplands o etholaeth gyfredol Gorllewin Abertawe.
Llandeilo Ferwallt, Fairwood, Gwŷr, Newton, Ystumllwynarth, Penclawdd, Pennard, West Cross o etholaeth gyfredol Gwŷr.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Gorllewin Abertawe	52,310	67.3
Gwŷr	25,465	32.7

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Llanelli (tua 75,776)

Adrannau etholiadol Sir Gaerfyrddin:
Rhydaman, y Betws, Garnant, Glanaman, Llandybïe, Pen-y-groes, Pontaman, Cwarter Bach, Saron a'r rhan honno o adran etholiadol Llangyndeyrn sy'n gorwedd i'r de o linell Gwendraeth Fach (tua 1,832 o etholwyr) o etholaeth gyfredol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr;
Bigyn, Bynea, Dafen, Elli, Felin-foel, Glanymor, Glyn, Hendy, Hengoed, Llangennech, Llan-non, Lliedi, Llwynhendy, Pontyberem, Swiss Valley, Tycroes a Thyisha o etholaeth gyfredol Llanelli.
Adrannau etholiadol Abertawe:
Penllaergaer, Pontarddulais, tua 2,000 o etholwyr o Langyfelach a thua 600 o etholwyr o Fawr o etholaeth gyfredol Gwŷr.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Llanelli	45,975	60.7
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	20,460	27.0
Gwŷr	9,341	12.3

Caerfyrddin (tua 75,798)

Adrannau etholiadol Sir Gaerfyrddin:
Abergwili, Cenarth, Cil-y-cwm, Cynwyl Gaeo, Gorslas, Llanddarog, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanegwad, Llanfihangel Aberbythych, Llanfihangel-ar-arth, Llangadog, Llangeler, Llangynnwr, Llanybydder, Maenordeilo a Salem, Llanismel a'r rhan honno o Langyndeyrn sy'n gorwedd i'r gogledd o linell Gwendraeth Fach (tua 500 o etholwyr) o etholaeth gyfredol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr;
Gogledd Tref Caerfyrddin, De Tref Caerfyrddin, Gorllewin Tref Caerfyrddin, Cynwyl Elfed, Trefgordd Talacharn, Llanboidy, Llansteffan, Sanclêr, Tre-lech, Hendy-gwyn ar Daf o etholaeth gyfredol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.
Porth Tywyn, Cydweli, Pen-bre a Thrimsaran o etholaeth gyfredol Llanelli.
Adrannau etholiadol Sir Benfro:
Amroth, Llanbedr Felffre, Arberth, Arberth Wledig o etholaeth gyfredol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro;
Maenclochog o etholaeth gyfredol Preseli Sir Benfro.
Adrannau etholiadol Powys o Lanwrtyd a Maes-car/ Llywel o etholaeth gyfredol Aberhonddu a Sir Faesyfed.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	32,490	42.4
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	28,210	36.8
Llanelli	10,686	13.9
Aberhonddu a Sir Faesyfed	2,892	3.8
Preseli Sir Benfro	2,369	3.1

Penfro (75,339)

Sir Benfro:
Caeriw, East Williamston, Hundleton, Cilgeti/Begeli, Llandyfái, Maenorbŷr, Martletwy, Doc Penfro (Canol, Llanion, Marchnad, Pennar), Penfro (Cil-maen, Gogledd St Mary, De St Mary, St Michael), Penalun, Saundersfoot, Gogledd Dinbych-y-pysgod, De Dinbych-y-pysgod o etholaeth gyfredol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.
Burton, Camros, Abergwaun (Gogledd Ddwyrain, Gogledd Orllewin), Wdig, Hwlffordd (Castle, Garth, Portfield, Prendergast, Priory), Johnston, Treletert, Llangwm, Llanrhian, Maenclochog, Pont Fadlen, Aberdaugleddau (Canol, Dwyrain, Hakin, Gogledd, Gorllewin), Neyland (Dwyrain, Gorllewin), Rudbaxton, Tyddewi, Llandudoch, Llanismel, Solfach, The Havens, Cas-wis o etholaeth gyfredol Preseli Sir Benfro.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Preseli Sir Benfro	45,453	60.3
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	29,886	39.7

Ceredigion a Rhaeadr (74,042)

Awdurdod lleol Ceredigion, sy’n gydffiniol â’r etholaeth gyfredol.
Adrannau etholiadol Blaen Hafren, Llandinam, Llanfair Caereinion, Llanidloes, Rhiwcynon o Bowys o etholaeth gyfredol Sir Drefaldwyn.
Adrannau etholiadol Llanllŷr, Nantmel, Rhaeadr Gwy o Bowys o a hanner gogleddol adran etholiadol Llanafan Fawr o etholaeth gyfredol Aberhonddu a Sir Faesyfed.
Adrannau etholiadol Cilgerran, Clydau, Crymych, Dinas, Trefdraeth, Scleddau o Sir Benfro o etholaeth gyfredol Preseli Sir Benfro.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Ceredigion	56,234	73.0
Sir Drefaldwyn		
Preseli Sir Benfro	8,058	10.5
Aberhonddu a Sir Faesyfed	4,519	5.9

Aberhonddu a Threfaldwyn (73,630)

Adrannau etholiadol Powys:
Bugeildy, Bronllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crucywel, Betws Diserth a Threcoed, Felin-fach, Y Clas-ar-wy, Gwernyfed, Y Gelli Gandryll, Trefyclo, Llanbadarn Fawr, Llandrindod (Dwyrain/Gorllewin, Gogledd, De), Llanelwedd, Llangatwg, Llangors, Llangynllo, Llangynidr, Pencraig, Llanandras, St David Within, St John, St Mary, Talgarth, Tal-y-bont ar Wysg, Aberysgir a hanner deheuol Llanafan Fawr o etholaeth gyfredol Aberhonddu a Sir Faesyfed.
Banw, Aberriw, yr Ystog, Castell Dolforwyn, Ffordun, Cegidfa, Ceri, Llandrinio, Llandysilio, Llanfihangel, Llanfyllin, Llanrhaedr-ym-Mochnant/Llansilin, Llansantffraid-ym-Mechain, Llanwddyn, Meifod, Trefaldwyn, y Drenewydd (Canol, Dwyrain, Gogledd a Gorllewin Llanllwchaearn, De), Trewern, y Trallwng (Castle, Gungrog, Llanerchyddol) o etholaeth gyfredol Sir Drefaldwyn.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Aberhonddu a Sir Faesyfed	39,113	53.1
Sir Drefaldwyn	34,517	46.9

Gwynedd a Machynlleth (75,318)

Adrannau etholiadol Gwynedd:
Etholaeth gyfan Dwyfor Meirionnydd.
Adrannau etholiadol Bethel, Bontnewydd, Cadnant, Cwm-y-glo, Deiniolen, Groeslon, Llanberis, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Menai (Caernarfon), Peblig (Caernarfon), Penisa'r-waun, Pen-y-groes, Seiont, Tal-y-sarn, Tregarth a Mynydd Llandygai, Waunfawr, y Felinheli o etholaeth gyfredol Arfon.
Adrannau etholiadol Gaersws, Glantwymyn, Llanbrynmair, Machynlleth o Bowys o etholaeth gyfredol Sir Drefaldwyn.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Dwyfor Meirionnydd	43,798	58.2
Arfon	25,550	33.9
Sir Drefaldwyn	5,970	8.0

Gogledd Cymru

Ynys Môn a Bangor (74,167)

Awdurdod lleol cyfan Ynys Môn, yn gydffiniol ag etholaeth Ynys Môn.
Adrannau etholiadol Gwynedd:
Adrannau etholiadol Arllechwedd, Bethel, Bethesda (yn cynnwys Gerlan, Ogwen), Bangor (yn cynnwys Deiniol, Dewi, Garth, Glyder, Hendre, Hirael, Marchog, Menai (Bangor)), Pentir, Tregarth a Mynydd Llandygái o etholaeth gyfredol Arfon.
Adrannau etholiadol Conwy.
Bryn, Capel Ulo, Pandy, Penmaenan o etholaeth gyfredol Aberconwy.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Ynys Môn	50,876	68.6
Arfon	17,134	23.1
Aberconwy	6,157	8.3

Conwy ac Abergele (74,374)

Adrannau etholiadol Conwy :
Caerhun, Conwy, Craig-y-don, Deganwy, Gogarth, Llansanffraid, Marl, Mostyn, Penrhyn, Pensam, Tudno o etholaeth gyfredol Aberconwy.
Abergele Pensam, Betws-yn-Rhos, Colwyn, Eirias, Gele, Glyn, Bae Cinmel, Llanddulas, Llandrillo-yn-Rhos, Llysfaen, Mochdre, Pentre Mawr, Rhiw, Towyn o etholaeth gyfredol Gorllewin Clwyd.
Adran etholiadol Bodelwyddan yn Sir Ddinbych o etholaeth gyfredol Dyffryn Clwyd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Gorllewin Clwyd	41,577	55.9
Aberconwy	31,176	41.9
Dyffryn Clwyd	1,651	2.2

Y Fflint a'r Rhyl (73,720)

Adrannau etholiadol Bagillt (Dwyrain, Gorllewin), Brynffordd, Ffynnongroyw, y Fflint (Castle, Cwnsyllt, Oakenholt, Trelawnyd), Maes-glas, Gronant, Treffynnon (Canol, Dwyrain, Gorllewin), Mostyn, Trelawnyd a Gwaunysgor, Chwitffordd yn Sir y Fflint o etholaeth gyfredol Delyn.
Adrannau etholiadol Prestatyn (Allt Melyd, Canol, Dwyrain, Gogledd, De Orllewin), y Rhyl (Dwyrain, De, De Ddwyrain, De Orllewin, Gorllewin), Diserth, Rhuddlan, Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy, Trefnant, Tremeirchion yn Sir Ddinbych o etholaeth gyfredol Dyffryn Clwyd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Dyffryn Clwyd	45,229	60.0
Delyn	30,108	40.0

Yr Wyddgrug a Shotton (75,949)

Yr adrannau etholiadol canlynol yn Sir y Fflint:
Aston, Brychdyn (Gogledd Ddwyrain, De), Bwcle (Dwyrain Bistre, Gorllewin Bistre, Mynydd Helygain, Pentrobin), Caergwrle, Cei Connah (Canol, Golftyn, De, Gwepra), Ewlo, Penarlâg, Higher Kinnerton, yr Hob, Big Mancot, Pen-y-ffordd, Queensferry, Saltney (Cyffordd yr Wyddgrug, Stonebridge), Sealand, Shotton (Dwyrain, Uchaf, Gorllewin) o etholaeth gyfredol Alun a Glannau Dyfrdwy.
Argoed, Coed-llai, yr Wyddgrug (Broncoed, Dwyrain, De, Gorllewin), New Brighton, Llaneurgain, Neuadd Llaneurgain o etholaeth gyfredol Delyn.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Alun a Glannau Dyfrdwy	58,468	77.0
Delyn	17,481	23.0

Wrecsam (74,020)

Adrannau etholiadol Wrecsam sy'n cynnwys:
Etholaeth gyfredol gyfan Wrecsam.
Bronington, Brymbo, Bryn Cefn, Coedpoeth, Esclusham, Gwenfro, Marchwiel, New Broughton, Minera, Owrtyn, o etholaeth gyfredol De Clwyd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
Wrecsam	51,898	70.1
De Clwyd	22,122	29.9

Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy (74,357)

Adrannau etholiadol Conwy:
Betws-y-coed, Crwst, Eglwys-bach, Llangywer, Trefriw, Uwch Conwy o etholaeth gyfredol Aberconwy.
Llangernyw, Llansannan, Uwchaled o etholaeth gyfredol Gorllewin Clwyd.
Adrannau etholiadol Sir y Fflint:
Caerwys, Cilcain, y Waun, Gwernymynydd, Helygain o etholaeth gyfredol Delyn
Llanfynydd, Treuddyn o etholaeth gyfredol Alun a Glannau Dyfrdwy.
Adrannau etholiadol Sir Ddinbych:
Corwen, Llandrillo, Llangollen o etholaeth gyfredol De Clwyd.
Dinbych (Canol, Isaf, Uchaf/Henllan), Llandyrnog o etholaeth gyfredol Dyffryn Clwyd.
Efechechtyd, Llanarmon-yn-lâl/Llandegla, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Llanfair Dyffryn Clwyd/ Gwyddelwern, Llanrhaedr-yng-Nghinmeirch, Rhuthun o etholaeth gyfredol Gorllewin Clwyd.
Etholiadau adrannol Cefn, Glyn Ceiriog, Gogledd y Waun, De'r Waun, Johnstown, Llangollen Wledig, Pant, Pen-y-cae, Pen-y-cae a Rhiwabon, Plas Madoc, Ponciau, Rhiwabon yn Wrecsam o etholaeth gyfredol De Clwyd.

Cyfansoddiad (hen seddi)	Etholwyr	Cyfran %
De Clwyd	31,342	42.2
Gorllewin Clwyd	15,877	21.4
Dyffryn Clwyd	9,146	12.3
Delyn	8,214	11.0
Aberconwy	6,964	9.4
Alun a Glannau Dyfrdwy	2,814	3.8

Atodiad 2: Amcangyfrifon manylach ar gyfer 2003

STV dau aelod yn etholaethau newydd San Steffan – amcangyfrifon manwl ar gyfer 2003.

	Amcangyfrif 2003 sedd 1	Amcangyfrif 2003 sedd 2
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU		
Aberhonddu a Threfaldwyn	DRh	Ceid.
Caerfyrddin	PC	Llaf.
Ceredigion a Rhaeadr	PC	DRh
Gwynedd a Machynlleth	PC	PC
Llanelli	Llaf.	PC
Penfro	Llaf.	Ceid.
CANOL DE CYMRU		
Y Barri a Phenarth	Llaf.	Ceid.
Canol Gaerdydd	DRh	Llaf.
Dyffryn Trelái	Llaf.	Ceid.
Gogledd Dwyrain Gaerdydd	Llaf.	Ceid.
Gorllewin Gaerdydd	Llaf.	Ceid.
Pontypridd ac Aberdâr	Llaf.	PC
DWYRAIN DE CYMRU		
Blaenau Gwent a Thredegar	Llaf.	Llaf.
Caerffili	Llaf.	PC
Casnewydd	Llaf.	Ceid.
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Llaf.	Llaf.
Torfaen	Llaf.	Ceid.
Trefynwy	Ceid.	Llaf.
GORLLEWIN DE CYMRU		
Castell-nedd ac Aberafan	Llaf.	PC
Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Llaf.	DRh
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llaf.	DRh
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Llaf.	PC
Pen-y-bont ar Ogwr	Llaf.	Ceid.
Rhondda ac Ogwr	Llaf.	Llaf.
GOGLEDD CYMRU		
Conwy ac Abergele	Llaf.	PC
Dinbych	PC	Llaf.
Y Fflint a'r Rhyl	Llaf.	Ceid.
Wrecsam	Ann.	Llaf.
Yr Wyddgrug a Shotton	Llaf.	Ceid.
Ynys Môn a Bangor	PC	Llaf.

Yn wir, gallai'r canlyniad ym Mhontypridd ac Aberdâr fod wedi bod 2 Llaf. yn lle 1 Llaf, 1 PC, ac os felly byddai Ceid a Llaf ill dwy'n +1 ar ganlyniad real 2003, DRh a PC ill dwy -1.

Amcangyfrifon manwl ar gyfer MMP gyda 30 etholaeth a 30 o aelodau rhestr ranbarthol, 2003.

	Amcangyfrif sedd 2003		Aelodau rhanbarthol
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU			
Aberhonddu a Threfaldwyn	DRh	5	PC
Caerfyrddin	PC	2	Ceid.
Ceredigion a Rhaeadr	PC	4	DRh
Gwynedd a Machynlleth	PC	6	Llaf.
Llanelli	Llaf.	1	Ceid.
Penfro	Llaf.	3	Llaf.
CANOL DE CYMRU			
Y Barri a Phenarth	Llaf.	5	PC
Canol Caerdydd	DRh	2	PC
Dyffryn Teláí	Llaf.	4	DRh
Gogledd Dwyrain Gaerdydd	Llaf.	1	Ceid.
Gorllewin Gaerdydd	Llaf.	3	Ceid.
Pontypridd ac Aberdâr	Llaf.	6	Ceid.
DWYRAIN DE CYMRU			
Blaenau Gwent a Thredegar	Llaf.	5	Ceid.
Caerffili	Llaf.	4	Llaf.
Casnewydd	Llaf.	3	Ceid.
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Llaf.	6	Llaf.
Torfaen	Llaf.	2	DRh
Trefynwy	Ceid.	1	PC
GORLLEWIN DE CYMRU			
Castell-nedd ac Aberafan	Llaf.	3	DRh
Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Llaf.	4	PC
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llaf.	5	Ceid.
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Llaf.	6	PC
Pen-y-bont ar Ogwr	Llaf.	2	Ceid.
Rhondda ac Ogwr	Llaf.	1	PC
GOGLEDD CYMRU			
Conwy ac Abergele	Llaf.	2	Ceid.
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	PC	6	Ceid.
Y Fflint a'r Rhyl	Llaf.	3	DRh
Wrecsam	Ann.	4	Llaf.
Yr Wyddgrug a Shotton	Llaf.	5	PC
Ynys Môn a Bangor	PC	1	Ceid.

Atodiad 3: Amcangyfrif o ganlyniadau'r etholiad gyffredinol yn 2010 yn y model o etholaethau newydd

Mae'r tabl canlynol yn amcangyfrif gwedd bleidiol y seddi newydd ym mhleidlais Etholiad Gyffredinol 2010.

CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU		
Aberhonddu a Threfaldwyn	Democrat Rhyddfrydol	Ceidwadwyr yn ail gweddol agos
Caerfyrddin	Plaid Cymru	
Ceredigion a Rhaeadr	Democrat Rhyddfrydol	
Gwynedd a Machynlleth	Plaid Cymru	
Llanelli	Llafur	Plaid Cymru yn agosach yn yr etholaeth newydd
Penfro	Ceidwadol	
CANOL DE CYMRU		
Y Barri a Phenarth	Ceidwadol	Llafur yn ail agos
Canol Gaerdydd	Democrat Rhyddfrydol	
Dyffryn Trelái	Ceidwadol	
Gogledd Dwyrain Gaerdydd	Llafur	Caeidwadwyr yn ail agos
Gorllewin Gaerdydd	Llafur	
Pontypridd ac Aberdâr	Llafur	
DWYRAIN DE CYMRU		
Blaenau Gwent a Thredegar	Llafur	
Caerffili	Llafur	
Casnewydd	Llafur	
Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach	Llafur	
Torfaen	Llafur	
Trefynwy	Ceidwadol	
GORLLEWIN DE CYMRU		
Castell-nedd ac Aberafan	Llafur	
Dwyrain Abertawe a Chwm Nedd	Llafur	
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llafur	
Gorllewin Abertawe a Gwŷr	Llafur	Sedd weddol agos 3-ffordd gyda'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Ryddfrydol
Pen-y-bont ar Ogwr	Llafur	
Rhondda ac Ogwr	Llafur	
GOGLEDD CYMRU		
Conwy ac Abergele	Ceidwadol	
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	Ceidwadol	Llafur yn ail agos
Y Fflint a'r Rhyl	Llafur	
Wrecsam	Llafur	
Yr Wyddgrug a Shotton	Llafur	
Ynys Môn a Bangor	Llafur	

Yn y tabl canlynol, rhoir effaith gyffredinol y newidiadau fel y'u modelwyd ar y pleidiau.

San Steffan 2010	Gwirioneddol	Enghreifftiol
Ceidwadol	8	6 (-2)
Llafur	26	19 (-7)
Dem. Rhydd.	3	3 (-)
Plaid Cymru	3	2 (-1)

Atodiad 4: Mapiau o'r etholaethau newydd arfaethedig

Argymhellion Dros Dro ar gyfer Gwent a Morgannwg Ganol



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976

Argymhellion Dros Dro ar gyfer De Morgannwg



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976

Argymhellion Dros Dro ar gyfer Gorllewin Morgannwg



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976

Argymhellion Dros Dro ar gyfer Dyfed



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976

Argymhellion Dros Dro ar gyfer Gwynedd



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976

Argymhellion Dros Dro ar gyfer Clwyd



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976

Argymhellion Dros Dro ar gyfer Powys



Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniataid Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron ac/neu hawl bas data. Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded: 100049976